**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**ADRODDIAD YMGYNGHOROL**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

**RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION: CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I WNEUD NEWID RHEOLEDIG I YSGOL GYNRADD MYNYDD CYNFFIG DRWY EHANGU**

## 1. Diben yr adroddiad

1.1 Diben yr adroddiad cyhoeddus hwn yw hysbysu am ganlyniad yr ymgynghoriad ar y cynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy ehangu (h.y. 2 ddosbarth mynediad ynghyd â 75 lle meithrin).

## 2. Cysylltiad ag amcanion llesiant corfforaethol/blaenoriaethau corfforaethol eraill

2.1 Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn gymorth i gyflawni'r amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- **Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus -** cymryd camau i wneud y fwrdeistref sirol yn lle gwych i wneud busnes, byw, gweithio, astudio ac ymweld â hi, a sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar wella sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y fwrdeistref sirol.

- **Defnydd doethach o adnoddau** – sicrhau bod yr holl adnoddau (ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl a chefnogi creu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.

## 3. Cefndir

3.1 3.16. Ym mis Hydref 2021, cyflwynwyd canlyniad yr astudiaeth dichonoldeb i'r Cabinet a chymeradwywyd dechrau proses ymgynghori statudol i ehangu Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig i ysgol mynediad 2 ddosbarth, ynghyd ag ysgol feithrin gyda lle i 75, i'w lleoli ar y safle iau, gan agor ym mis Medi 2025.

3.2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 4. Proses ymgynghori

4.1 Er mwyn bwrw ymlaen â’r cynnig, cynhaliwyd ymgynghoriadau rhwng 23 Tachwedd 2021 a 12 Ionawr 2022 yn unol â’r Côd Trefniadaeth Ysgolion statudol. Yn ystod y cyfnod hwn rhoddwyd copi o’r ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor:

https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/ymgynghoriadau-sydd-wedi-cau/ymgynghoriad-ysgol-gynradd-mynydd-cynffig/

Roedd y ddogfen ymgynghori yn gwahodd sylwadau a barn i'w cyflwyno mewn perthynas â'r cynnig. Mae rhestr o’r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw i’w gweld yn atodiad 16.

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

5.1 Dyma brif bwyntiau’r ymgynghoriad, gyda manylion llawn wedi’u hatodi ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Cynhaliodd yr awdurdod lleol bedwar cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig (safle babanod) ar ddau ddyddiad, a chynhaliodd gyfarfodydd 'rhithiol' gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a Chyngor Cymuned y Pîl. Mynychodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath a'r Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) y sesiynau a gynhaliwyd yn yr ysgol. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau ar wahân gyda'r ddau sefydliad er mwyn mynd i'r afael â'u pryderon penodol. Bu'r aelodau lleol yn ymgysylltu'n frwd â'r broses ac yn ei chefnogi.

5.2 **Cyfarfodydd ymgynghori agored yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**
Cynhaliwyd cyfres o bedwar cyfarfod ymgynghori yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar 30 Tachwedd a 7 Rhagfyr 2021. Ceir manylion llawn trafodaethau'r cyfarfodydd a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd yn Atodiadau 1, 2, 6 a 7 yr adroddiad ymgynghori hwn.

Mynychodd pum cynrychiolydd o CBSP yr holl gyfarfodydd. Nid oedd unrhyw fynychwyr yn y cyfarfod ymgynghori cyntaf ar ddydd Mawrth 30 Tachwedd 2021 4pm-5pm. Mynychodd un aelod o’r cyhoedd bob un o’r cyfarfodydd a gynhaliwyd ddydd Mawrth 30 Tachwedd 2021 am 5.15pm-6.15pm a dydd Mawrth 7 Rhagfyr 2021 am 4pm-5pm. Mynychodd tri aelod o Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath y cyfarfod ar ddydd Mawrth 7 Rhagfyr 2021 am 5:15pm-6:15pm a daeth pedwar aelod o’r gymdeithas rhandiroedd i gyfarfod dilynol ar ddydd Llun 10 Ionawr 4pm-5pm.

Codwyd cwestiynau ynghylch adleoli'r rhandiroedd, adeiladu, dyluniad a chyllideb yr ysgol newydd a phryderon parcio/priffyrdd. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y bydd y rhandiroedd yn cael eu lleoli y tu ôl i'r ysgol. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda Chymdeithas Rhandiroedd Pwllygath ynghylch y cyflenwad dŵr a symud eu colomendai a'u siediau. Bydd mynedfa'r rhandiroedd yn yr ochr, y drws nesaf i adeilad presennol yr ATC a bydd llwybr drwy ganol y rhandiroedd. Neilltuwyd ardal gyda lle parcio i hyd at

bedwar car, gydag un ohonynt yn lle anabl / hygyrch.  Byddwn yn cydymffurfio â’r safonau Diogelu drwy Ddylunio o ran ffensio a bydd mesurau diogelwch / gatiau yn cael eu gosod.

Bydd adeilad yr ysgol newydd yn un deulawr a bydd yn ennill lle trwy ddefnyddio tir y mae'r ATC yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd.  Bydd adeilad yr ysgol iau bresennol yn cael ei ddymchwel. Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni fesul cam.  Bydd gan y contractwyr le caeëdig ar y safle a dywedodd swyddogion y dylent gysylltu ag aelod o'r tîm i ddelio ag unrhyw broblemau os bydd rhai.  Bydd maes parcio ysgol yn cael ei gynnwys yn y cynllun a’r ffordd sy’n arwain at yr ysgol yn cael ei lledu, gyda llecyn bio-ddargadw wedi’i dirlunio rhwng y ffordd a’r palmant i wahanu cerddwyr a cherbydau.

Bydd gan yr ysgol brif neuadd a neuadd stiwdio, gyda'r cyfanswm m² yn fwy na'r ddarpariaeth bresennol. Bydd gan yr ysgol gyllideb yn ôl nifer y dysgwyr ar gyfer dodrefn ac offer TG. Mae'r tîm yn archwilio dewisiadau gwahanol er mwyn adleoli adeilad yr ATC; efallai bydd modd iddynt ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol.

Eglurwyd camau'r prosiect a rhoddwyd sicrwydd i'r grŵp y byddai asbestos yn cael ei drin yn briodol petai'n cael ei ganfod ar y safle. Cynhaliwyd arolwg ecoleg llawn a bydd dulliau lliniaru ar waith.

Mae'r cyllid yn cael ei bennu’n unol â chost safonedig Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.  Byddwn yn cydweithio gyda nhw i sicrhau bod digon o arian i gwblhau’r prosiect.

5.3 **Ymgynghoriad y Corff Llywodraethol**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori ‘rhithiol’ gyda chynrychiolwyr o lywodraethwyr Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar 2 Rhagfyr 2021. Ceir manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad ymgynghori hwn. Gofynnwyd cwestiynau'n bennaf ynghylch y ffordd/lôn y tu allan i'r ysgol, maes chwarae'r ysgol a'r cyfleusterau chwaraeon, safle'r hen ysgol fabanod a beth yw'r cynlluniau ar gyfer adleoli’r ATC.

Gofynnwyd i gynrychiolwyr y Cyngor a fydd gan y lôn system unffordd ac eglurwyd y bydd posibiliadau eraill yn cael eu hystyried wrth i’r cynllun ddatblygu.  Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor fod cyfraddau m² fesul plentyn wrth bennu ardaloedd llawr caled. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd safle'r hen ysgol fabanod yn cael ei ddefnyddio. Bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad gan ddibynnu ar ganlyniad y broses ymgynghori.  Mae'r Landlord Corfforaethol wrthi’n edrych ar safleoedd eraill ar gyfer yr ATC ac efallai y bydd cyfle iddynt ddefnyddio neuadd / cyfleusterau'r ysgol.  Gofynnwyd cwestiwn ynghylch asesu effaith ar anabledd, gan y bydd yr ysgol ar ddwy lefel. Eglurwyd y bydd yn rhaid i ni fodloni’r Ddeddf

Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn ogystal â rheoliadau adeiladu ac y bydd yr ysgol yn cydymffurfio'n llwyr.

5.4 **Ymgynghoriad dysgwyr**

Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol rhwng cyngor ysgol Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig a chynrychiolwyr o CBSP ar 6 Rhagfyr 2021 i drafod y cynnig. Rhoddwyd fersiwn addas i blant o'r ddogfen ymgynghori cyn y cyfarfod a gofynnwyd iddynt am eu barn. Ceir manylion trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/eglurhad yn gyflawn yn Atodiad 4 yr adroddiad ymgynghori hwn.

Roedd prif bryderon y disgyblion yn ymwneud â lleoliad yr ysgol a beth fyddai'n digwydd i adeilad y babanod, pa gyfleusterau fyddai gan yr ysgol newydd a lleoliad y rhandiroedd. Er nad oes dyluniad manwl wedi'i wneud hyd yma, eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y byddai digon o le yn cael ei ddarparu yn yr awyr agored, gan gynnwys lle i grwydro, caeau chwaraeon, cyrtiau chwaraeon, mannau chwarae meddal, mannau chwarae caled a lle i gynefinoedd. Pe bai’r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu fel bod y disgyblion yn gallu cyfrannu at y broses ddylunio. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor hefyd y byddai’r ysgol newydd arfaethedig yn cael ei lleoli ar safle presennol yr ysgol iau, gyda’r babanod a’r plant iau mewn un adeilad a'r gwaith adeiladu’n cael ei wneud yn raddol fesul cam i sicrhau diogelwch. Bydd y rhandiroedd yn symud 100 metr o'r lle maen nhw ar hyn o bryd y tu ôl i adeilad yr ysgol. Bydd angen i'r Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ag ysgol newydd, yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas â safle'r ysgol fabanod. Cynhaliwyd pleidlais gan gyngor yr ysgol ar ddiwedd y cyfarfod er mwyn gweld a oedd y disgyblion yn teimlo bod y cynnig yn syniad da neu’n syniad gwael, yn gyffredinol. Roedd pob un o’r 16 disgybl a oedd yn bresennol yn cytuno ei fod yn syniad da.

5.5 **Ymgynghoriad staff**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori ‘rhithiol’ gyda staff Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar 6 Rhagfyr 2021. Ceir manylion trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau yn gyflawn yn Atodiad 5 yr adroddiad ymgynghori hwn. Codwyd cwestiynau yn bennaf ynghylch mynediad i fannau awyr agored, mannau parcio, danfon a chasglu plant a neuadd yr ysgol.

Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y bydd gan yr ysgol lwyfan /plaza dysgu (stryd) ac y bydd o leiaf ddwy set o risiau i ddysgwyr gael mynediad i'r iard. Bydd gan bob dosbarth cyfnod sylfaen fynediad uniongyrchol allan o’u hystafelloedd dosbarth. Byddwn yn gweithio gyda’r ysgol i sicrhau bod gofod yr iard yn effeithiol a byddwn yn ymgynghori’n ffurfiol gyda’r staff yn y dyfodol ynglŷn â gofynion dylunio, os bydd y cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet. Bydd y lôn yn cael ei lledu a bydd llecyn bio-ddargadw 2m yn cael ei greu, gyda llwybr troed 3.5m o led yn y canol i gerddwyr, sgwteri a beiciau. Mae'r llun yn dangos sut mae’n ffitio ar y safle ac nid yw wedi'i gwblhau. Bydd

prif neuadd a stiwdio gyda wal “symudol” a chegin gymunedol/ystafell technoleg bwyd a leolir gerllaw’r stiwdio.

5.6 **Ymgynghoriad Cyngor Cymuned y Pîl**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori ‘rhithiol’ gyda Chyngor Cymuned y Pîl ar 15 Rhagfyr 2021. Ceir manylion trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau yn gyflawn yn Atodiad 8 yr adroddiad ymgynghori hwn. Codwyd cwestiynau yn ymwneud yn bennaf â thagfeydd traffig ar y lonydd a Heol Croft Goch ac ymgysylltu â’r gymuned leol i godi ymwybyddiaeth am y prosiect.

Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor fod yr holl bosibiliadau ar gyfer y briffordd yn dal yn agored. Roedd cynlluniau drafft blaenorol yn dangos bod y cylch gadael plant yn dod o Heol Croft Goch, sy'n syniad da i symud traffig o'r ffordd fawr, ond byddai’n golygu na fyddai’r holl gaeau chwarae ar safle’r ysgol. Ni fyddai rhoi maes parcio yn yr ardal honno o fudd i’r ysgol. Bydd symud y rhandiroedd a’r ATC yn rhyddhau mwy o dir. Bydd y lôn yn cael ei lledu a bydd llecyn bio-ddargadw 2m yn cael ei greu, gyda llwybr troed 3.5m o led yn y canol i gerddwyr, sgwteri a beiciau. Bydd cyfleoedd yn cael eu creu i gysylltu llwybrau teithio llesol â’r ardal ehangach. Gofynnwyd i gynghorwyr ymgysylltu â'r gymuned leol i godi ymwybyddiaeth am y cynlluniau.

5.7 **Ymgynghoriad y Corfflu Hyfforddiant Awyr**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori ‘rhithiol’ gyda'r ATC ar 20 Rhagfyr 2021. Ceir manylion trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion / esboniadau yn gyflawn yn Atodiad 9 yr adroddiad ymgynghori hwn. Codwyd cwestiynau'n bennaf ynghylch lleoliad a chyfleusterau'r ATC yn y dyfodol.

Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y broses raddol o adeiladu'r ysgol. Ar hyn o bryd mae'r Adran Landlordiaid Corfforaethol yn edrych ar safleoedd eraill ar gyfer yr ATC a nodwyd y gallai'r grŵp gael y cyfle i ddefnyddio neuadd / cyfleusterau'r ysgol, gan y byddai'r ysgol yn ysgol gymunedol. Bydd angen i'r tîm wybod beth yw gofynion yr ATC o ran defnydd yr adeilad a'r anghenion storio. Eglurwyd bod CBSP yn bwriadu gwrthwynebu unrhyw gytundeb tenantiaeth newydd unwaith y daw’r brydles i ben yn 2023. Fodd bynnag, bydd swyddogion yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl. Cynigiodd y tîm gynnal cyfarfod pellach gyda'r ATC pe bai angen.

Cynhaliwyd ail gyfarfod ymgynghori ‘rhithiol’ gyda’r Corfflu Hyfforddiant Awyr ar 10 Ionawr 2022. Ceir manylion trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion / esboniadau yn gyflawn yn Atodiad 10 yr adroddiad ymgynghori hwn. Dywedwyd bod angen i'r ATC fod â phresenoldeb yn ardal Mynydd Cynffig. Efallai y byddant yn gallu defnyddio cyfleusterau’r ysgol ond efallai y bydd problemau diogelwch. Gofynnodd y tîm am wybodaeth ynghylch gofynion yr ATC; pa gyfleusterau storio a gofod llawr y bydd arnynt eu hangen er mwyn i ni allu archwilio’r cyfleoedd posibl. Mae gan yr ATC ystafell efelychydd hedfan, fodd bynnag mae yna sawl ystafell efelychydd hedfan ar safleoedd cadetiaid

ym Mhen-y-bont ar Ogwr y gellid eu defnyddio os oes angen. Cadarnhaodd swyddogion y bydd CBSP yn gwrthwynebu adnewyddu’r brydles ac y bydd 12 mis o rybudd yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2022. Eglurwyd nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd yr hen safle babanod yn cael ei ddefnyddio; bydd hyn yn ddibynnol ar ganlyniad y broses statudol mewn perthynas â'r ysgol newydd arfaethedig.

Cynhaliwyd cyfarfod safle yn neuadd ysgol fabanod Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar 10 Ionawr 2022 ac roedd aelod o’r ATC yn bresennol. Dangoswyd cyflwyniad a throsolwg o'r cynllun, yn ogystal â gwybodaeth am y cyfnodau adeiladu. E-bostiwyd dolen i'r ymgynghoriad ar wefan CBSP y bore canlynol, ynghyd â chais am wybodaeth yn ymwneud â defnydd yr ATC.

Codwyd cwestiynau ynghylch y maes chwarae ac eglurodd y tîm y bydd yn symud ychydig fetrau o’i leoliad presennol. Dywedwyd bod yr awyren ar safle'r ATC yn un o ddim ond deg o'i bath yn y Deyrnas Unedig a'i bod wedi'i rhestru a bydd angen ei symud gyda'r ATC. Awgrymwyd na fyddai defnyddio cyfleusterau'r ysgol yn briodol; mae gan yr ATC faes saethu ac ystafell efelychydd hedfan y bydd angen eu hystyried. Dywedodd y swyddogion y byddai'r hyn y gellid ei ddarparu ar gyfer yr ATC yn cael ei ystyried. Mynegwyd pryder y bydd yr ardal yn colli'r ATC ac y bydd yn rhaid i gadetiaid deithio i rywle arall. Mae 95% o'r cadetiaid yn byw'n lleol ac yn gallu cerdded i'r uned. Mynegwyd pryderon na fydd y gyllideb yn cefnogi'r ysgol newydd yn y blynyddoedd i ddod. Eglurodd y tîm y bydd y safle cyfan yn cael ei ddefnyddio ac mai ychydig iawn o dir sydd ar ôl ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Bydd y lle bychan sydd ar ôl yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiad ecolegol. Bydd dyluniad yr ysgol yn cael ei lywio gan ganllawiau ardal Bwletin Adeiladu 99 ar gyfer yr ysgol, yn ôl gofynion Llywodraeth Cymru. Ceir manylion trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion / esboniadau yn gyflawn yn Atodiad 14 yr adroddiad ymgynghori hwn.

5.8 **Cymdeithas Rhandiroedd Pwllygath**

Cynhaliwyd cyfarfod safle yn neuadd ysgol fabanod Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar 10 Ionawr 2022 ac roedd pedwar aelod o’r rhandiroedd yn bresennol. Diben penodol y cyfarfod oedd trafod gofynion y gymdeithas rhandiroedd. Cyflwynodd staff CBSP gynllun safle arfaethedig y rhandiroedd newydd a thrafodwyd maint a lleoliad y lleiniau a'r mynedfeydd. Eglurwyd y bydd ffens diogelwch yn amgylchynu'r rhandiroedd ac y bydd gan bob llain ffens. Byddwn yn cydymffurfio â gofynion Diogelu drwy Ddylunio (e.e. bydd ffensys a mesurau diogelwch / gatiau yn cael eu gosod). Bydd pedwar lle parcio yn cael eu cynnwys a lle i gynhwysydd diogel er mwyn cadw offer. Roedd y cynrychiolwyr yn pryderu y byddai'r fynedfa yn cael ei rhwystro gan barcio anystyriol. Sicrhaodd y tîm y bydd y safle danfon a chasglu plant ysgol yn cael ei wella ac y bydd lleoedd parcio yn cael eu darparu ar gyfer staff. Nid oes rheolau traffig ar hyn o bryd. Mae'r datblygiad hwn yn gyfle i sefydlu rheolau newydd, megis arwyddion “dim aros / llwytho”; mae llawer o syniadau

i'w trafod. Bydd materion cyflymder a thraffig yn cael sylw fel rhan o'r cynigion priffyrdd. Bydd llecyn bio-ddargadw yn cael ei greu rhwng y palmant a'r ffordd. Mae CBSP wedi cytuno i ddarparu colomendai newydd. Awgrymir mai'r dewis gorau yw gosod colomendy y tu allan i lain yn y rhandir a'i fod yn cael ei reoli gan Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath. Bydd siediau a chasgenni dŵr yn cael eu gosod a bydd tir pob llain yn cael ei drin. Ar hyn o bryd rydym yn anelu at gael cynllun safle sy'n bodloni'r gymdeithas rhandiroedd. Bydd manylion yn cael eu trafod wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen. Rhennir copi o'r cynlluniau gyda'r gymdeithas rhandiroedd. Eglurwyd na fydd yr un awgrym yn cael ei ddiystyru; dyluniadau ar y gweill yw'r rhain. Bydd mynedfa'r rhandiroedd yng nghefn Stryd Pwllygath a mynedfa i gerddwyr o'r lôn.

5.9 **Crynodeb o sylwadau ysgrifenedig**
Derbyniwyd tair gohebiaeth uniongyrchol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gweler Atodiad 12 yr adroddiad ymgynghori hwn am fanylion ac ymatebion/esboniadau.

5.10 Anfonwyd atebion i'r ohebiaeth yn diolch am yr argymhellion ac yn datgan y bydd y sylwadau'n cael eu hystyried.

5.11 Derbyniwyd dau lythyr gohebiaeth yn codi materion yn ymwneud ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sydd wedi'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad.

5.12 Yn y cyfarfod ar 10 Ionawr 2022, dywedodd cynrychiolydd o Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath eu bod wedi ysgrifennu i wrthwynebu'r cynlluniau ar gyfer y rhandiroedd, nid i wrthwynebu'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol. Cododd pryderon y gwrthwynebiad o ganlyniad i fynediad arfaethedig yng Nghaer Wetral. Mae'r fynedfa yn Stryd Pwllygath yn union yr un fath â'r un bresennol ac felly'n lleddfu'r pryderon hynny.

5.13 **Crynodeb o ymatebion yr arolwg ar-lein**
Derbyniwyd 78 ymateb i'r holiadur ar-lein. Cafwyd 65 yn ymateb 'Ydw' ac 8 yn ymateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn a oedd yn gofyn a ydynt yn cefnogi'r cynnig. Gweler Atodiad 3 yr adroddiad ymgynghori hwn am fanylion ac ymatebion/esboniadau’r awdurdod i’r materion a godwyd.

## 6. Barn Estyn, Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

6.1 Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig. Gweler Atodiad 14 yr adroddiad ymgynghori hwn am fanylion llawn. Mae Estyn wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

"Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r pum egwyddor allweddol sy'n rhan o'r fframwaith ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r egwyddorion allweddol hyn yn llywio'r gwaith o drefnu a moderneiddio ysgolion yr awdurdod lleol. Mae'r cynigion yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth

addysg yn yr ardal.  Mae'r cynnig yn debygol o wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen".

## 7 Asesiadau Effaith

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Daeth yr asesiad i'r casgliad na fydd y cynnig yn debygol o gael effaith anghyfartal ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r casgliad yn parhau'n ddilys.

7.2 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Daeth i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a gaiff dysgwyr yr ysgol ar hyn o bryd ac y byddai'r Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu drwy'r cwricwlwm.  Diweddarwyd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar ôl yr ymgynghoriad.

7.3 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Mae safleoedd yr ysgol fabanod a'r ysgol iau o fewn 0.4 milltir i'w gilydd.  Felly, ni ragwelir y bydd unrhyw bosibilrwydd sylweddol o effaith negyddol ar y gymuned. Fodd bynnag, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'n bosibl y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar gydlyniant y gymuned gan y byddai'r dysgwyr yn mynychu adeilad ysgol newydd sbon gyda chyfleusterau cymunedol pwrpasol yn rhan ohoni.  Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r asesiad wedi'i ddiweddaru ac mae'r casgliad yn parhau'n ddilys.

7.4 Ystyriwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth lunio'r cynnig (gweler Atodiad 15).

## 8 Goblygiadau ariannol

8.2 Neilltuwyd £10.2m o'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y prosiect hwn a chyfradd ymyrraeth LlC yw 65%. 8.3 Gallai’r cynllun, pe bai’n mynd yn ei flaen, greu arbedion effeithlonrwydd costau refeniw o ganlyniad i symud o ddau safle i un. Mae’n anodd cyfrif faint yn union ar hyn o bryd gan y bydd hyn yn rhan o’r broses ariannu fformiwla flynyddol. Byddai unrhyw gostau refeniw posibl sy’n gysylltiedig â symud y rhandiroedd a'r ATC yn fach iawn.

## 9. Proses statudol wrth benderfynu ar gynigion

- Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amserlen dros dro:

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori pan fyddwn yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar y cynnig*. | 23 Tachwedd 2021 i 12 Ionawr 2022 |
| Adroddiad Ymgynghori Drafft i'r Cabinet am ganlyniadau'r ymgynghoriad. | Chwefror 2022 |
| Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori Cymeradwy ar wefan CBSP, gellir gwneud cais am gopi caled. | Chwefror 2022 |
| Os bydd cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cytuno arno, cyhoeddir Hysbysiad Cyhoeddus a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ysgrifenedig. | Mawrth 2022 |
| Os nad oes gwrthwynebiadau gall y Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Adroddiad Gwrthwynebiadau yn cael ei anfon at y Cabinet i'w ystyried cyn dod i benderfyniad. Yna bydd yr adroddiad a gymeradwyir yn cael ei gyhoeddi ar wefan CBSP ac fe ellir gwneud cais am gopïau caled.<br>Cyhoeddi'r hysbysiad o benderfyniad. | Mai 2022<br>Mai 2022 |
| Gweithredu | Medi 2025 |

*Gellir gwneud cais am copïau caled o'r adroddiad hwn.*

**Swyddog Cyswllt:** Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth)
**Ffôn:** (01656) 643643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Cyfeiriad Post** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

**ATODIAD 1**

**Cyfarfod ymgynghori agored yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**
**Dydd Mawrth 30 Tachwedd 2021**
**4pm-5pm**

Yn Bresennol: Staff CBSP x5
Athro/Athrawes x1

Dim mynychwyr.

**ATODIAD 2**

**Cyfarfod ymgynghori agored yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**
**Dydd Mawrth 30 Tachwedd 2021**
**5.15pm - 6.15pm**

Yn Bresennol: Staff CBSP x5
Athro/Athrawes x1
Aelod o'r cyhoedd x1

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori a gosododd ddiben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

| **Cwestiynau/Materion** | **Ateb/Sylwadau** |
|---|---|
| Ble bydd lleoliad y rhandiroedd? | Byddant yn symud y tu ôl i'r ysgol. Bydd mynediad o'r lôn bresennol lle mae'r Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) wedi'i leoli ar hyn o bryd. |
| A fydd digon o le i'r ysgol? | Byddwn yn ennill lle trwy ddefnyddio tir a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr ATC. Bydd yr ysgol newydd yn adeilad ysgol deulawr. |
| Beth fydd yn digwydd i adeilad presennol yr ysgol? | Bydd yr adeilad presennol yn cael ei ddymchwel a'i ailadeiladu. Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud fesul cam. |
| A roddwyd rhybudd i'r rhandiroedd a sut caiff eu hadeiladau eu diogelu? | Rydym wedi bod yn trafod gyda Chymdeithas Rhandiroedd Pwllygath drwy gydol y broses ac wedi trafod eu gofynion a'u hanghenion. Rydym yn dilyn gofynion Diogelu drwy Ddylunio, er enghraifft bydd ffensys a mesurau diogelwch yn cael eu gosod. |
| Mae parcio yn bryder, ble bydd staff ac ymwelwyr ysgol yn parcio? | Mae maes parcio wedi ei gynnwys yn y cynllun. |
| Mae llawer yn parcio ar y stryd a rhieni yn aros i ddanfon / casglu eu plant, mae'n mynd yn brysur iawn ac ni fydd y lonydd cyfagos yn gallu ymdopi â thraffig ychwanegol, mae'n anodd gweld ac mae ceir yn parcio bob ochr, nid yw diogel. | Bydd y ffordd sy'n arwain i'r ysgol yn cael ei lledu. Bydd ardal wedi'i thirlunio rhwng y ffordd a'r palmant er mwyn gwahanu cerddwyr a cherbydau. Rydym wrthi'n trafod man gadael plant yn yr ysgol. Bydd gan yr ysgol gynllun teithio i'r ysgol ac rydym yn annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio sgwter i ddod i'r ysgol. Efallai y bydd dod â'r ddwy ysgol i un safle yn lleddfu |

| | |
|---|---|
| | problemau rhieni sy'n gorfod rasio rhwng y ddwy ysgol. |
| A oes cludiant i'r ysgol? | Na, dim ond cludiant i ddigwyddiadau chwaraeon. |
| A fydd “to gwyrdd”? | Mae to gwyrdd, ynghyd â'r goblygiadau cost, yn cael eu hystyried. Bydd technoleg werdd drwy'r ysgol, megis paneli solar, ffenestri a ffynonellau gwres. Bydd adeilad yr ysgol yn un Di-Garbon Net. |
| Pwy fydd yn dylunio ac adeiladu'r ysgol? | Mae gennym bensaer mewnol i'w dylunio a byddwn yn cynnal proses dendro er mwyn cyflogi cwmni adeiladu. |
| Ble bydd y cerbydau adeiladu yn parcio? | Bydd ganddynt le caeëdig ar y safle. Bydd polisi “dim symud cerbydau” llym yn ystod oriau brig. Bydd yr amodau hyn ar ddu a gwyn yn eu contract. Os oes unrhyw broblemau, anfonwch e-bost at aelod o'r tîm a byddwn yn delio â'r mater. |

V1

**ATODIAD 3**

**Cyfarfod ymgynghori yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig gyda Chorff Llywodraethol yr Ysgol Dydd Iau, 2 Rhagfyr 2021 am 16:15pm**

Yn Bresennol: Staff CBSP x5
Athro/Athrawes x1
Llywodraethwyr yr Ysgol x5

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori gan egluro diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig. Cyflwynodd y tîm eu hunain. Rhannodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol gynllun y safle ar y sgrin.

| <u>Cwestiynau/Materion</u> | <u>Atebion/Sylwadau</u> |
|---|---|
| | |
| | Nodwyd bod swm yr wybodaeth a dderbyniwyd cyn ac yn ystod y broses ymgynghori wedi bod yn wych. |
| A fydd gan y lôn system unffordd?<br><br>Gofynnodd XX am ymchwiliad pellach. Mae'r trigolion yn teimlo'n gadarnhaol am y datblygiad. Mae'r garejys yn cefnu ar y lôn ac mae traffig dwy ffordd yn anniogel. | Mae angen inni ystyried barn trigolion lleol. Gellir ymchwilio i hyn wrth i ni ddatblygu'r cynllun ymhellach.<br><br>Bydd XX yn siarad â rheolwyr traffig ac yn egluro y gallai'r trigolion fod yn fwy o blaid. Gallwn gynnal rhag-ymgynghoriad. Bydd XX yn rhoi adborth i'r tîm.<br><br>Mae XX a XX yn hapus i fynd at y trigolion. |
| Pa mor agos at raddfa yw'r lluniad? Mae gofod yr iard yn edrych yn fach. A fydd yr ardaloedd artiffisial yn cael eu defnyddio fel mannau chwarae? Bydd 240 o blant ar yr iard. | Mae cyfraddau $m^2$ fesul plentyn yn bodoli. Mae'r iard yn edrych yn llai yn y llun na'r hyn ydyw. Nid yw hwn yn ddyluniad terfynol. |
| Oes rhaid cael maes chwarae ger yr ysgol? Mae sawl maes chwarae ar gael yn y pentref. Mae meysydd chwarae yn dynfa i fandaliaeth. | Methu rhoi ateb i hynny. Rydym yn ceisio sicrhau nad ydym yn colli unrhyw un o'r cyfleusterau sydd gennym eisoes.<br>Mae'r awdurdod lleol yn hybu mannau gwyrdd a pharciau a bydd disgwyl iddo gadw'r maes chwarae. |

| | |
|---|---|
| | Rydym yn cydymffurfio â gofynion Diogelu drwy Ddylunio, er enghraifft bydd ffensys a mesurau diogelwch / TCC yn cael eu gosod. |
| A fydd y TCC yn amgylchynu'r parc?<br><br>Os bydd y gymuned yn cael defnyddio'r cyfleusterau chwaraeon gyda'r nos, bydd hyn yn atal fandaliaeth yn yr ardal gyda'r nos. | Bydd y TCC yn goruchwylio'r maes parcio ac efallai y maes chwarae. Bydd angen inni wirio'r rheoliadau.<br><br>Bydd o gymorth i'r tîm rygbi merched.<br><br>Cytunodd pawb y bydd y cyfleuster o fudd mawr i'r gymuned. |
| Sut y byddai llifoleuadau ger y cartrefi yn effeithio ar y gymuned? | Bydd angen ystyried llifoleuadau. Mae llifoleuadau yn y Clwb Rygbi, does dim cwynion wedi dod i law hyd yn hyn. |
| A fydd asesiad o'r effaith ar anabledd yn cael ei gynnal? Bydd yr ysgol ar ddwy lefel. A ystyriwyd lifftiau, grisiau a drysau? | Yn ogystal â rheoliadau adeiladu, mae'n rhaid i ni fodloni'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae'n rhaid gosod grisiau a rampiau ar raddiant penodol a bydd lifft. Bydd gan y bloc addysgu risiau allanfa dân a chadair gwacáu, gan gynnwys mannau galw sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaethau brys. |
| Beth fydd yn digwydd i safle'r hen ysgol fabanod? Mae'r safle wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad preswyl yn y Cynllun Datblygu Lleol. Ni allwn gael mwy o ddatblygiadau preswyl os nad oes gennym wasanaethau ar eu cyfer.<br>A ellid lleoli maes chwarae mwy yno? | Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd safle'r hen ysgol fabanod yn cael ei ddefnyddio. Bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad gan ddibynnu ar ganlyniad y broses hon. |
| Mae prydles y clwb Girl Guides yn dod i ben, oni allent ddefnyddio safle'r ysgol fabanod? Hefyd, oni allai'r Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) ddefnyddio'r safle hwnnw? | Mae Adran y Landlordiaid Corfforaethol wrthi'n edrych ar safleoedd amgen ar gyfer yr ATC. Efallai y bydd cyfle iddynt ddefnyddio neuadd/cyfleusterau'r ysgol.<br>Ar hyn o bryd mae'r Girl Guides/Rainbows/Brownies mewn eiddo Cymoedd i Arfordir (Neuadd y Sgowtiaid).<br>Byddai'r ysgol yn croesawu'r cyfle i'r Girl Guides ddefnyddio eu cyfleusterau.<br>Bydd prif neuadd a neuadd stiwdio gyda chegin gymunedol. |

**ATODIAD 4**

**Cyfarfod ymgynghori yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig gyda Chyngor yr Ysgol Dydd Llun, 6 Rhagfyr 2021 am 10am**

Yn Bresennol: Staff CBSP x6ve p
Athro/Athrawes x1
Aelodau Cyngor yr Ysgol (x16)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y sesiwn ymgynghori gan nodi diben y cyfarfod ac yna cyflwynodd y tîm eu hunain. Eglurodd y Rheolwr Prosiect, Moderneiddio Ysgolion, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig. Dangosodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol gynllun y safle a ffotograffau o ysgolion newydd eraill ar yr sgrin.

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| | |
| I ble mae'r rhandiroedd yn symud? | Byddan nhw'n symud y tu ôl i'r ysgol, tua 100 metr o'r lle maen nhw ar hyn o bryd. |
| xx: a fydd yr ysgol newydd lle mae ein man chwarae presennol? | Egluro'r lleoliad newydd gan ddefnyddio map ar y sgrin. Bydd y bloc addysgu lle mae'r ardal gyda glaswellt ar hyn o bryd. |
| A fydd neuadd yr ysgol newydd yn fwy? | Bydd |
| A fydd yr ysgol newydd yn cael ei lleoli ar y safle iau a'r safle babanod fel ag y maent ar hyn o bryd? | Bydd yn cael ei lleoli ar safle'r ysgol iau. Bydd pawb ar yr un safle mewn un adeilad. |
| Beth fydd yn digwydd i adeilad presennol yr ysgol fabanod? | Nid ydym wedi penderfynu beth fydd yn digwydd i adeilad yr ysgol fabanod eto. Bydd angen i'r Cabinet benderfynu a allwn fwrw ymlaen â'r syniad i adeiladu ysgol newydd, yna gallwn ystyried beth fydd yn digwydd i'r ysgol fabanod. |
| A fydd gan y babanod eu hiard eu hunain, neu a fydd yn rhaid i ni rannu gofod yr iard? | Bydd lle chwarae meddal ar gyfer dysgwyr meithrin a derbyn. Bydd yr iardiau eraill yn cael eu rhannu. Bydd rhai ardaloedd yn cael eu gwahanu ac yn cael eu rheoli gan yr ysgol.<br>Unwaith y bydd y dyluniad wedi'i ddatblygu'n well, gallwn gydweithio gyda dysgwyr a staff yr ysgol i drafod gofod yr |

| | |
|---|---|
| | iard a sut y caiff ei ddefnyddio. Nid ydym wedi cyrraedd y cam hwnnw eto. |
| A fydd y cae rygbi a phêl-droed yn un at bob tywydd? | Bydd yn gae artiffisial at bob tywydd. |
| Ble byddwn ni'n cael ein rhoi tra bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu ac a fyddwn ni'n dal i allu gwneud chwaraeon? | Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud fesul cam. Bydd dysgwyr yn aros yn yr adeiladau y maen nhw ynddynt nawr. Bydd adeiladwyr a dysgwyr yn cael eu gwahanu i sicrhau diogelwch. Bydd y cae chwarae yn parhau i fod yn weithredol cymaint â phosibl, efallai y bydd cyfnod byr o amser pan na fydd y cae yn cael ei ddefnyddio ond byddwn yn ceisio gwneud hynny yn ystod gwyliau'r ysgol i leihau'r effaith. |
| Pa mor fawr fydd y cwrt pêl-rwyd? | Bydd yn fwy na'r un sydd gennych ar hyn o bryd. Bydd yn gwrt o faint arferol. |
| A fydd yna wahanol fathau o doiledau? | Gobeithiwn ddarparu cyfleusterau toiled a rennir rhwng dwy ystafell ddosbarth. Bydd digon o ddarpariaeth a gwahanol fathau i bawb. |
| xx: A fydd yr ysgol iau a'r ysgol fabanod ynghlwm wrth ei gilydd, neu yn adeiladau ar wahân? | Bydd yr ysgol yn adeilad deulawr, gyda'r babanod ar y llawr gwaelod a'r plant iau ar y llawr cyntaf. |
| | Gofynnwyd i'r dysgwyr roi gwybod i'w hathrawon os oes ganddynt gwestiynau eraill er mwyn eu hanfon at y tîm i gael atebion. |
| Rheolwr Prosiect, Moderneiddio Ysgolion: Gofynnwyd i'r grŵp a oeddent yn teimlo bod adeilad ysgol newydd yn syniad da. | Cytunodd Cyngor yr Ysgol yn unfrydol "ydym". |
| Gofynnodd XX a hoffai cyngor yr ysgol ymweld ag adeilad ysgol newydd i edrych o gwmpas ac i siarad â dysgwyr eraill am eu profiadau. | Cytunodd Cyngor yr Ysgol yn unfrydol "hoffem".<br><br>Rhannu lluniau o Ysgol Gynradd Pencoed ac Ysgol Gynradd Betws |
| Wnaethoch chi ddylunio tu mewn yr ysgolion? | Do |
| | Pan ddaw'r broses ymgynghori i ben ac os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen, byddwn yn trefnu cyfarfod gyda Chyngor yr Ysgol i ofyn am syniadau ynghylch yr hyn yr hoffech ei gynnwys yn eich ysgol newydd. |

**ATODIAD 5**

**Cyfarfod ymgynghori yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig gyda staff yr ysgol**
**Dydd Llun, 6 Rhagfyr 2021 am 3:45 pm**

Yn Bresennol: Staff CBSP x5
Athro/Athrawes x1
Gwasanaethau Arlwyo CBSP x1
Staff Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori gan egluro diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinelluodd y cynnig. Cyflwynodd y tîm eu hunain. Dangosodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol gynllun safle posibl a ffotograffau o ysgolion newydd eraill ar yr sgrin.

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| | |
| Mae mynediad uniongyrchol i iard y cyfnod sylfaen (CS), beth am gyfnod allweddol 2? | Eglurwyd y bydd llwyfan/plaza dysgu (y stryd). Bydd o leiaf ddau set o risiau i ddysgwyr fynd i'r iard. Bydd llwybr dianc brys hefyd. Mewn gwirionedd bydd ganddynt dair ffordd i fynd i'r iard. |
| A fydd y gegin yn yr ardal weinyddu uchaf, gyda mynediad ochr ar gyfer cyflenwadau? Wrth ddyrannu m² y gegin a'r neuadd, a fydd y dyluniad yn ystyried yr ymrwymiad i roi prydau ysgol am ddim i bob ysgol gynradd am dair blynedd? | Bydd, fe fydd y gegin yn yr ardal weinyddu uchaf, gyda mynediad ochr ar gyfer cyflenwadau.<br>Y briff dylunio yw dilyn Canllawiau Bwletin Adeiladu (BB) 99 (BB99).<br>Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi nodi y bydd yn adolygu'r dyraniad arwynebedd llawr a nodir yn BB99 a BB103. |
| A fydd llwybr yn gyfochrog â'r ysgol ger y cae rygbi? Mae'n llwybr eithaf peryglus ar hyn o bryd. | Bydd y lôn yn cael ei lledu a bydd llecyn bio-ddargadw 2m yn cael ei greu, gyda llwybr troed 3.5m o led yn y canol. |
| Mae gan Ysgol Gynradd Pencoed ardal natur gyda phwll, a oes cynlluniau ar gyfer hyn yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig (YGMC)? | Rhan o'n hymrwymiad fel awdurdod lleol yw gwella bioamrywiaeth. Ar hyn o bryd yn y prosiect, ni allwn benderfynu a ellir cael pwll ar y safle ond os gallwn gynnwys un yn ddiogel, byddwn yn ystyried hynny. |
| A fydd ardaloedd dysgu awyr agored gyda lle i ddosbarthiadau cyfan? | Mae'r llun yn dangos sut mae'n ffitio ar y safle ac felly nid yw wedi'i gwblhau.<br>Unwaith y byddwn yn gwybod faint o le sydd gennym yn union, gallwn benderfynu a |

| | |
|---|---|
| | ellir eu cynnwys ac ymhle. Gwrychoedd fydd y ffin a gallem ymgorffori ardaloedd coediog bychain. Mae'r lefelau'n caniatáu gosod amffitheatr fach. |
| A fydd y llwybr y tu allan i'r ysgol yn cynnwys lle i feicio? | Bydd y llwybr yn 3.5m² fel bod lle i gerddwyr, sgwteri a beicwyr.<br>Cyngor LlC yw nad oes angen gwahanu'r llwybr beicio a cherdded. Bydd 3.5m² yn rhoi ddigon o le. |
| A fydd y llwybrau beicio yn cysylltu ag ardaloedd eraill er mwyn rhoi cyfle i deithio'n ddiogel ac iach a gwella'r rhwydwaith lleol? | Mae gennym fap rhwydwaith integredig sy'n rhoi manylion llwybrau dymunol. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried llwybrau o amgylch clwb y sgowtiaid a'r feddygfa. Unwaith y byddwn yn gwybod a fydd y prosiect hwn yn mynd yn ei flaen, byddwn yn edrych ar fanylion pellach. |
| Mae gennym ddwy neuadd ar hyn o bryd; ai un neuadd fawr fydd yn yr ysgol newydd? Bydd yn rhaid cynnal gwersi addysg gorfforol dan do, cyngherddau ac ati ynddi. | Yn y bôn bydd dwy neuadd; byddwn yn gosod wal "symudol" i greu prif neuadd a stiwdio. Bydd y cyfanswm m² yn fwy na'r ddarpariaeth bresennol.<br>Byddwn hefyd yn cynnwys cegin gymunedol/ystafell technoleg bwyd a fydd wedi'i lleoli gerllaw'r stiwdio. |
| A fydd gennym lwyfan yn y neuadd a beth fydd ei faint? | Llwyfan symudol, nid un sefydlog. Bydd y maint yn cael ei bennu gan y swyddog tân. |
| Nodwyd nad yw'r llun yn ôl graddfa. Bydd gan yr ysgol ddau lawr. Bydd llawer mwy o le a chyfleusterau chwaraeon. Bydd angen i ni fod yn greadigol gyda'r gofod. | Awgrymwyd ymweliad staff ag ysgolion lleol newydd eraill i weld y cyfleusterau ac i ofyn cwestiynau am sut mae'r safleoedd yn cael eu defnyddio. |
| A fydd yr adeilad deulawr yn amharu ar ardaloedd preswyl lleol? | Mae'r bloc addysgu yn strwythur mawr. Fodd bynnag, mae uchder adeilad presennol yr ysgol yn un llawr a hanner ar hyn o bryd. Bydd lefel yr adeilad yn gostwng ar hyd ymyl y tir. Byddwn yn ychwanegu coed i ysgafnhau'r olygfa. |
| Mae llawer o ysgolion wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r cylch troi, oherwydd diogelwch.<br>Ble mae ffordd fynediad y rhandiroedd?<br>Mae yna lawer o le parcio o flaen yr ysgol lle mae ceir yn dod i mewn. | Rydym wedi ystyried dewisiadau gwahanol ar gyfer mynediad y rhandiroedd ond nid yw hynny wedi'i gwblhau. Mae'r dyluniad ar gyfer y mannau gadael plant yn dderbyniol ond nid yw'r arferion defnyddio yn dderbyniol. Mae angen addysgu pellach i sicrhau bod y mannau gadael plant yn cael eu defnyddio'n ddiogel.<br>Bydd gweithdai'n cael eu cynnal gyda swyddogion addysg, priffyrdd a'r Grŵp Cynghori ar Gludiant Ysgol i benderfynu a |

| | |
|---|---|
| | fydd man gadael plant yn cael ei gynnwys mewn datblygiadau yn y dyfodol.<br>Byddwn yn ymgynghori'n ffurfiol gyda'r staff yn y dyfodol ynghylch gofynion dylunio, os bydd y cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan y cabinet. |
| Bydd angen ymestyn yr amser cinio yn y neuadd os bydd pob disgybl cynradd yn derbyn prydau ysgol am ddim a bydd hyn yn effeithio ar ddefnydd yr ysgol o'r neuadd. | Bydd hyn yn effeithio ar bob ysgol.  Byddwn yn aros am gyngor ynghylch arwynebedd llawr gan LlC. |
| Mae yna broblemau storio ar y safle iau, a fydd gan y safle newydd ddigon o le i storio?<br><br><br><br><br><br>A oes lwfans m² o le storio yn ôl niferoedd dysgwyr? | Bydd gan bob ystafell ddosbarth ei lle storio ei hun.  Bydd storfa allanol, cinio ac Addysg Gorfforol yn y neuadd, storfeydd cwricwlwm, storfeydd cegin ac ystafell stoc ganolog.<br>Mae'r Bwletin Adeiladau yn hael gyda datrysiadau storio a bydd lefelau amrywiol yr ysgol yn rhoi lle storio ychwanegol.<br>Canllawiau sydd ar gyfer storio, nid rheoliadau. |
| Mynediad cyfnod sylfaen i'r maes chwarae, a yw hyn yn caniatáu llif rhydd i ardal batio? | Bydd gan bob cyfnod sylfaen fynediad uniongyrchol allan o'u hystafelloedd dosbarth.  Byddwn yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod yr iard yn addas i chi.  Byddwn yn ymgynghori'n ffurfiol gyda'r staff yn y dyfodol ynghylch gofynion dylunio, os bydd y cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan y cabinet. |
| Rhannu ffotograffau o Ysgol Gynradd Pencoed a rhoi trosolwg. | |
| Fel arfer bydd ysgolion newydd yn derbyn mewnlifiad o blant, beth yw'r sgôp ar gyfer ehangu'r ysgol? | Bydd yr ysgol yn un mynediad 2 ddosbarth.  Nid oes digon o le i ehangu ar y safle.  Os oes cynlluniau ar gyfer tai newydd yn yr ardal, bydd angen adolygiad dalgylch.  Byddai ehangu yn cymryd lle sydd ei angen ar gyfer yr iard.  Fe wnaethom archwilio safleoedd eraill i'w datblygu ond cawsant eu diystyru. |
| A fydd y man gadael plant yn debyg i un Pencoed? | Pe bai man gadael plant yn cael ei gynnwys, byddai'n edrych yn wahanol iawn i un Pencoed, gyda mwy o fannau gwyrdd.  Mae trafodaethau ar y gweill. |
| A oes gan Bencoed ystafell 'gerddoriaeth' ar wahân ar gyfer athrawon teithiol? | Nac oes, ond mae nifer o ystafelloedd grŵp y gellir eu defnyddio. |

| | |
|---|---|
| Awydd trefnu ymweliad ag Ysgol Gynradd Pencoed neu Ysgol Gynradd Brynmenyn er mwyn i'r staff allu dychmygu'r ysgol newydd. | Awgrymodd XX y dylid cyfarfod â phenaethiaid 'Band A' i drafod y gwersi a ddysgwyd.<br>Bydd XX yn cynnwys cymaint o staff â phosibl a bydd yn rhoi adborth i'r tîm. |

Gellir e-bostio rhagor o gwestiynau at y rheolwr prosiect.

Diolchodd XX i'r grŵp am fynychu.

Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig fydd yr ysgol gyntaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn Ddi-Garbon Net.  Mae'r cynllun hwn yn gyfle cyffrous i'r gymuned.

Byddwn yn trefnu i staff a dysgwyr ymweld ag ysgolion eraill.

V1

**ATODIAD 6**

**Cyfarfod ymgynghori agored yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**
**Dydd Mawrth 7 Rhagfyr 2021**
**4pm-5pm**

Yn Bresennol: Staff CBSP x4
Athro/Athrawes x1
1 Aelod o'r cyhoedd
Cynghorwyr x2

Ymddiheuriadau: Staff CBSP x1

Cyflwynodd y tîm eu hunain. Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori a gosododd ddiben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| | |
| | Mae gan yr ysgol gyfle i fod o ddefnydd i'r gymuned. Mae modd i'r Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) a'r Brownies ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae nifer o glybiau lleol a allai elwa a byddai'r ysgol yn eu croesawu a'u hannog. |
| A fydd y Gymdeithas Rhandiroedd yn derbyn iawndal? | Rydym yn cydweithio â'r Gymdeithas Rhandiroedd ac wedi derbyn rhestr o ofynion/anghenion ganddynt. Byddwn yn parhau i gwrdd â nhw gan sicrhau nad ydynt yn cael unrhyw anfantais o ganlyniad i'r symud. |
| A fydd gan y Gymdeithas Rhandiroedd gyflenwad dŵr rhedegog? | Mae angen ystyried hynny. Mae casgenni dŵr yn well i'r amgylchedd. Efallai y bydd problemau wrth dalu biliau dŵr rhedegog. Mae angen trafodaeth bellach. |
| Beth fydd maint neuadd yr ysgol? | Yn y bôn bydd dwy neuadd; byddwn yn gosod wal "symudol" i greu prif neuadd a stiwdio. Bydd y cyfanswm m² yn fwy na'r ddarpariaeth bresennol. |
| | Mae'n debyg mai ym mis Mehefin yn hytrach na mis Mai y bydd y Cabinet yn dod i benderfyniad. |

| | |
|---|---|
| A yw'r dyluniad yn dilyn cynlluniau dylunio ysgolion eraill? | Mae pob safle yn wahanol ac mae'r tir sydd ar gael ym Mynydd Cynffig ar lefelau gwahanol. Mae'r blociau addysgu yn dilyn cynllun tebyg, gan ein bod yn gwybod bod y cynllun hwn yn gweithio. Mae peth hyblygrwydd o ran cynllun y neuadd a'r ardaloedd gweinyddol.<br>Bydd gan yr ysgol plaza/stryd ddysgu, sy'n gofyn am rywfaint o greadigrwydd ynghylch sut mae'r ysgol yn dymuno defnyddio'r gofod. |
| A fydd yr ysgol yn cael cyllideb ychwanegol i brynu offer newydd yn ystod y flwyddyn gyntaf? | Mae cyllideb yn cael ei chyfrifo yn ôl nifer y dysgwyr ar gyfer pethau megis dodrefn. Ceir cyllideb ar wahân ar gyfer offer TG. |
| Pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau, sut y gallwch sicrhau na fydd yn tarfu ar addysg y plant? | Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni fesul cam.<br>Cam 1: symud y rhandiroedd;<br>Cam 2: codi adeilad yr ysgol;<br>Cam 3: symud y plant iau i'r adeilad newydd a dymchwel hen adeilad yr ysgol; a<br>Cam 4: Maes parcio, lleiniau a phriffyrdd. |
| Sut na fydd y dysgwyr yn cael eu tarfu'n ormodol gan gontractwyr yn symud o gwmpas ar y safle? | Bydd gan y contractwy fynedfeydd eu hunain a bydd ganddynt le caeëdig diogel. Bydd iard ac adeilad yr ysgol yn ddiogel rhag yr ardal waith. Bydd polisi “dim symud cerbydau” llym yn ystod oriau brig. Bydd ein tîm priffyrdd yn sicrhau bod y fynedfa'n aros yn glir. Mae gan XX bwerau o ran cynllunio ac mae gan XX bwerau cytundebol y gellir eu gorfodi os bydd achosion o ddiffyg cydymffurfio. |
| Ble fydd y staff yn parcio? | Mae maes parcio wedi ei gynnwys yn y cynllun. |
| Bydd cyfnod pan fydd y contractwyr angen defnyddio'r maes chwarae? | Nid ydym wedi dylunio hynny hyd yn hyn, pe bai angen i ni ddefnyddio'r maes chwarae, byddai ein tîm iechyd a diogelwch yn rhan o'r gwaith. Byddai cyngor yn cael ei roi a byddem yn sicrhau bod rheolau parcio yn eu lle. |

**ATODIAD 7**

**Cyfarfod ymgynghori agored yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**
**Dydd Mawrth 7 Rhagfyr 2021**
**5.15pm -6.15pm**

Yn Bresennol: Staff CBSP x4
Athro/Athrawes x1
Cymdeithas Rhandiroedd x3
Cynghorydd x1

Ymddiheuriadau: Staff CBSP x1

Cyflwynodd y tîm eu hunain. Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori a gosododd ddiben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
|---|---|
| | |
| A fydd rhai o'r rhandiroedd yn aros lle y maent? | Na fydd |
| Sut fyddan nhw i gyd yn ffitio ar y safle newydd? | Mae'r ardal wedi'i dylunio i ddangos maint y safle. Bydd dyluniad manwl yn dilyn. Ni fydd unrhyw anfantais o ran maint nac ansawdd. Bydd maint y rhandiroedd yn cyfateb i'w meintiau presennol a bydd yr un nifer o leiniau. Efallai y bydd lle i gynhwysydd ar gyfer offer. |
| Ble bydd y fynedfa? | Ar yr ochr, wrth ymyl y Corfflu Hyfforddiant Awyr a bydd llwybr canolog trwy'r rhandiroedd. |
| Mae'n rhaid i bob safle newydd gael maes parcio yn ôl y gyfraith. A fydd gennym ni faes parcio? | Mae'n ofynnol i ni ateb gofynion safonau parcio. Bydd man gadael a chasglu plant, gyda lle parcio i'r anabl.<br>Neilltuwyd ardal gyda lle parcio i hyd at bedwar car, gydag un ohonynt yn lle anabl / hygyrch. |
| A gawn ni ystafell gyfarfod? | Gall yr ysgol gael ei defnyddio i gynnal cyfarfodydd. Mae hwn yn brosiect cymunedol ac rydym yn eich annog i gydweithio i rannu cyfleusterau. |

| | |
|---|---|
| I ble bydd y Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) yn mynd? | Mae ein Hadran Landlordiaid Corfforaethol yn adolygu hyn ar hyn o bryd. Efallai bydd modd iddynt ddefnyddio neuadd yr ysgol. Byddwn yn cynnal cyfarfod ar wahân gyda'r ATC i drafod hyn. |
| Mae'r rhandiroedd yn safle archaeolegol (dosbarthwyd dogfennau gan XX). Darganfuwyd blaen saeth yn un o'r lleiniau. | Mae ymchwiliad safle wedi'i gynnal. Fodd bynnag, bydd angen inni gysylltu â chynllunwyr i ymchwilio ymhellach i hyn. |
| Nodwyd bod y ffordd ger cae rygbi'r ysgol yn eiddo preifat. | Rydym yn ymwybodol o hyn. |
| Mae ceir yn teithio'n gyflym ar hyd y ffordd, os gwnewch chi hi'n lletach, bydd pethau'n gwaethygu.<br><br>Dylid cael parthau gwahardd a llinellau igam ogam. | Bydd dulliau arafu traffig yn cael eu sefydlu. Mae rheolwyr traffig wedi bod yn monitro cyflymder traffig ar y safle ac wedi bod yn cadw cyfrif o'r traffig. Byddwn yn edrych ar y dewisiadau gwahanol i sicrhau bod y ffordd yn ddiogel a'i bod yn gymwys i'r gymuned. Efallai y bydd modd cyflwyno system unffordd. Mae gennym gyfle i wneud rhywbeth defnyddiol a diogel fel rhan o'r cynllun hwn.<br><br>Bydd hyn yn cael ei gynnwys. |
| Bydd hyn yn achosi problemau i Lawsons Garages sydd wedi'u lleoli ar y lôn. | Ni ddylai fod unrhyw broblemau, bydd pawb yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwelliannau. |
| A fydd yr awdurdod lleol yn darparu cyfleuster o'r radd flaenaf ar gyfer y rhandiroedd? | Rydym yn cydymffurfio â gofynion Diogelu drwy Ddylunio, er enghraifft bydd ffensys a mesurau diogelwch / gatiau yn cael eu gosod. Efallai y bydd lle i gynhwysydd diogel ar gyfer offer. |
| A fydd cyflenwad dŵr rhedegog?<br>Byddai'n well cael casgenni dŵr. | Mae angen ystyried hynny. Mae casgenni dŵr yn well i'r amgylchedd. Efallai y bydd problemau wrth dalu biliau dŵr rhedegog. Mae angen trafodaeth bellach. |
| Beth fydd yn digwydd i'r colomennod? Mae angen eu symud nhw cyn symud unrhyw beth arall. Mae ganddynt dymor magu ac ni fydd modd eu symud tan fis Hydref.<br><br>A fydd colomendai newydd ar eu cyfer? Ar hyn o bryd mae ganddyn nhw 3 (yn mesur tua: 40"x8"/10"x10"/22"x8")<br><br>Efallai y byddwch yn dweud nad oes digon o arian yn y dyfodol. | Hoffem weithio gyda chi ynglŷn â hyn. Awgrymwyd e-bostio llinell amser a gwybodaeth at y rheolwr prosiect.<br><br>Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar hyn o bryd, ond bydd angen trafod hyn ymhellach yn y dyfodol.<br><br>Ni fyddwn yn gwneud hynny; mae'r prosiect hwn hefyd ar gyfer y gymuned ac rydym am |

| | |
|---|---|
| | sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu'r hyn sydd ei angen. |
| Beth fydd yn digwydd pan fydd y gwaith adeiladu yn dechrau? | Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni fesul cam.<br>Cam 1: symud y rhandiroedd;<br>Cam 2: codi adeilad yr ysgol;<br>Cam 3: symud y plant iau i'r adeilad newydd a dymchwel hen adeilad yr ysgol; a<br>Cam 4: Maes parcio, lleiniau a phriffyrdd. |
| Pryd fyddwch chi'n tynnu'r asbestos? | Bydd adeilad yr ysgol yn wag ac wedi ei selio. Mae dulliau gwahanol o drin asbestos o wahanol raddau ac fe ymdrinnir ag ef yn unol â hynny. |
| Nid yw hyn yn mynd i weithio. | Rydym eisiau gweithio gyda chi. Rydym eisiau sicrhau eich bod yn teimlo'n gyffrous ynghylch cyfleusterau'r rhandiroedd a'u bod yn ateb eich gofynion chi. Mae'n bwysig eich bod yn rhannu eich gwybodaeth am y safle gyda ni. |
| Mae ystlumod yn yr ardal. | Cynhaliwyd arolwg ecoleg trwyadl a bydd dulliau lliniaru ar waith. Ni chaiff unrhyw ffiniau eu tynnu heb yr wybodaeth a'r ymchwiliadau angenrheidiol. |
| Nid oes gennych yr arian i gwblhau'r gwaith adeiladu hwn. | Mae'r cyllid yn cael ei bennu'n unol â chost safonedig Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Byddwn yn cydweithio gyda nhw i sicrhau bod digon o arian i gwblhau'r prosiect. |
| A fyddwch chi'n gosod ffensys rhag llwynogod? | Ni ellir cadarnhau hynny ar hyn o bryd. |
| A fydd y fynedfa ffordd yn ddigon llydan i drelar neu dractor? | Bydd, bydd yn 3.5m². |
| A fydd gennym gylch troi? | Mae'n anodd cynnwys cylch troi, ond efallai y bydd modd cynnwys ardal droi. Ychwanegodd XX bod troi yn y ffordd yn anghyfreithlon. |

Dywedodd XX fod y prosiect hwn yn gyfle cyffrous i'r ysgol a'r gymuned leol. Anogodd XX bawb i ystyried yr effaith gadarnhaol y bydd y cynllun hwn yn ei gael. Bydd maint yr ysgol yn rhoi lle i blant lleol mewn adeilad newydd gyda chyfleusterau dysgu rhagorol. Bydd cyfle i'r gymuned ddefnyddio'r ysgol ac yn ei dro, bydd hyn o fudd i deuluoedd, dysgwyr a chlybiau lleol. Byddai'n wych i'r ysgol gydweithio gyda'r rhandiroedd a chreu gardd ac ardal ecoleg.

**ATODIAD 8**

**Cyfarfod ymgynghori Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**
**Cyngor Cymuned y Pîl**
**Dydd Mercher 15 Rhagfyr 2021**
5pm-6pm

Yn Bresennol: Staff CBSP x4
Cynghorydd x1
Cyngor Cymuned y Pîl x5

Ymddiheuriadau: Staff CBSP x1
Athro/Athrawes x1

Cyflwynodd y tîm eu hunain. Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori gan nodi diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac fe amlinellodd y cynnig.

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| | |
| Dangosodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg o gynllun drafft y safle ac esboniodd gamau'r gwaith adeiladu. Rhannwyd ffotograffau o ysgolion newydd a adeiladwyd yn ddiweddar a'u trafod. | Cam 1: symud y rhandiroedd;<br>Cam 2: codi adeilad yr ysgol;<br>Cam 3: symud y plant iau i'r adeilad newydd a dymchwel hen adeilad yr ysgol;<br>Cam 4: Maes parcio, lleiniau a phriffyrdd. |
| Mae tagfeydd traffig ar y lonydd a Heol Croft Goch. Roedd y cynlluniau drafft gwreiddiol yn dangos y cylch gadael plant yn dod o Heol Croft Goch, mae hyn yn syniad da i symud traffig o'r ffordd fawr. A yw'r dewis hwn yn dal i gael ei ystyried? | Mae'r holl ddewisiadau yn dal ar agor ar hyn o bryd. Ystyriwyd y dewis hwn yn wreiddiol, ond ni fyddai lle i'r holl gaeau chwarae ar y safle. Ni fyddai rhoi maes parcio yn yr ardal honno o fudd i'r ysgol. Bydd adleoli'r rhandiroedd a'r Corfflu Hyfforddiant Awyr yn rhyddhau mwy o dir. Bydd y lôn yn cael ei lledu a bydd llecyn bio-ddargadw 2m yn cael ei greu, gyda llwybr troed 3.5m o led yn y canol i gerddwyr, sgwteri a beiciau. |
| Gofynnwyd i gynghorwyr ymgysylltu â'r gymuned leol i godi ymwybyddiaeth am y cynlluniau ac i ddenu cefnogaeth. | Rhoddwyd gwybod bod swyddogion rheoli traffig eisiau symud traffig i ffwrdd o Heol Croft Goch, gan y byddai hyn yn golygu dod â mwy o gerbydau i mewn i'r ysgol ac yn creu ciwiau ar y ffordd. Roeddem yn teimlo bod y lôn yn cynnig gwell ateb ac yn rhoi cyfle i greu llwybr beicio a llwybr cerdded |

| | |
|---|---|
| | wedi eu cysylltu i lwybrau teithio llesol eraill. Bydd hyn yn caniatáu inni geisio cyllid gan Lywodraeth Cymru (LlC), gan y bydd y rhwydwaith yn ei le. |
| Cysylltwyd â CBSP yn ddiweddar i wneud cais am arian ar gyfer croesfan ddiogel yn y sgwâr ger meddygfa'r glowyr.  Yn anffodus, nid oes cyllideb i gefnogi ar hyn o bryd, ond gallai fod os bydd cyllid ar gael gan LlC. | Mae'r groesfan yn hollbwysig a gellid ei ystyried fel rhan o adeiladwaith yr ysgol, i gysylltu â'r rhwydwaith cerdded ehangach. Gallai CBSP fod yn rhan o hyn, os ydym yn gallu cael cyllid gan LlC. |
| Gofynnwyd pa ymatebion sydd wedi dod i law mewn perthynas â'r ymgynghoriad hyd yn hyn. | Rydym wedi cynnal pedwar digwyddiad ymgynghori cyhoeddus. Nid oes unrhyw ymatebion ffurfiol wedi dod i law eto.<br>yr adborth cyffredinol yw bod pobl yn cefnogi'r prosiect.  Mae trigolion Stryd Pwllygath wedi mynegi pryder gan fod eu garejys yn cefnu ar y lôn.  Byddwn yn cysylltu â'r preswylwyr yn ystod y cam dylunio i drafod eu pryderon. |
| Gofynnodd XX i'r cyngor cymuned hysbysebu'r prosiect a chodi'r mater yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned er mwyn i bawb gael cyfle i wneud sylwadau. | |

**ATODIAD 9**

**Cyfarfod ymgynghori Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**
**Corfflu Hyfforddiant Awyr**
**Dydd Llun, 20 Rhagfyr 2021**
5pm-6pm

Yn Bresennol: Staff CBSP x6
Cynghorydd x1
Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) x1

Ymddiheuriadau: Athro x1
ATC x1

Datganodd XX fuddiant.
Cyflwynodd y tîm eu hunain. Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori gan nodi diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac fe amlinellodd y cynnig.

| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
|---|---|
| | |
| Cafwyd trosolwg llafar o gynllun drafft y safle gan y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol ac fe esboniodd gamau'r gwaith adeiladu. | Cam 1: symud y rhandiroedd;<br>Cam 2: codi adeilad yr ysgol;<br>Cam 3: symud y plant iau i'r adeilad newydd a dymchwel hen adeilad yr ysgol;<br>Cam 4: Maes parcio, lleiniau a phriffyrdd. |
| A oes unrhyw un o Sgwadron Mynydd Cynffig wedi bod mewn cysylltiad â'r tîm?<br><br>Bydd angen i XX a XX ymateb i'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd XX yn cysylltu â nhw. | Mae XX wedi bod mewn cyswllt. Gwahoddwyd chwe aelod o'r ATC i'r cyfarfod hwn heddiw.<br><br>Cynigiodd XX gynnal cyfarfod arall pe byddai angen. Gofynnwyd i'r ATC roi gwybod i ni. |
| Beth ydych chi'n bwriadu ei ddarparu ar gyfer yr ATC? A fyddant yn cael adeilad newydd, neu a fydd yn rhaid iddynt symud a dod o hyd i safle newydd? | Mae'r Adran Landlordiaid Corfforaethol wrthi'n ystyried a oes safleoedd eraill ar gyfer yr ATC. Efallai y bydd cyfle iddynt ddefnyddio neuadd/cyfleusterau'r ysgol. Bydd prif neuadd a neuadd stiwdio gyda chegin gymunedol. Bydd gan yr ysgol gae pob tywydd yn ogystal â'r iard a'r neuadd. Byddwn angen gwybod beth yw gofynion yr ATC o ran defnyddio'r adeilad a'r anghenion storio. |

| | |
|---|---|
| | Mae CBSP yn bwriadu gwrthwynebu cytundeb tenantiaeth newydd unwaith y daw’r brydles i ben yn 2023. Byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl, y lleiafswm yw 6 mis a'r uchafswm yw 12 mis, a byddwn yn pennu dyddiad. Byddwn yn gweithredu yn ôl y Ddeddf Landlord a Thenant. Os gall yr ATC nodi eu gofynion h.y. gofod llawr, storfa, bydd tîm CBSP yn helpu cymaint â phosibl. Mae angen 180m² ar gyfer cwt newydd. |
| Sawl noson/diwrnod maen nhw'n defnyddio'r cwt? | Fel arfer mae'r cadetiaid yn gorymdeithio un neu ddwy noson yr wythnos, rhwng dwy a phedair awr. Maent yn Ganolfan Rhagoriaeth ac maent wrthi'n gwneud Gwobr Dug Caeredin, sy'n golygu efallai y byddant yn defnyddio'r cwt ar benwythnosau. Mae'n dibynnu beth sydd ei angen ar y sgwadron. |
| Bydd angen i'r ATC ystyried ble a sut i symud yr awyren. | Mae gan XX restr o gwestiynau i'w gofyn i'r ATC. |
| Bydd angen i'r ATC asesu eu gofynion storio ar gyfer gwisgoedd ac eitemau siop fwyd. Mae rhannu cyfleusterau'r ysgol a'r gegin gymunedol yn swnio'n beth cadarnhaol. Mae llawer o bethau i'w hystyried cyn 2023. Awgrymodd XX fod angen i'r ATC gynnal cyfarfod mewnol cyn trafod ymhellach gyda CBSP. | Gallwn gynnal cyfarfod arall cyn 12 Ionawr 2022 os oes angen. Ni fydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu tan 2025 ond bydd angen safle'r ATC yn 2023 er mwyn dechrau adeiladu. Efallai yr hoffent ystyried defnyddio adeilad yr adran iau yn ystod y cyfnod hwn, neu o bosibl adeilad y babanod. Bydd yn rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol gytuno i'r ceisiadau hyn. |
| Gofynnodd XX i XX ystyried lle storio'r ATC yn ystod holl gamau'r gwaith. | Dymunwn fod yr ysgol yn cael ei rhannu gyda’r gymuned. Bydd cyfleusterau ar gael ar safle'r ysgol a fydd o fudd i'r ATC.<br>Mae llawer o fanteision i'r prosiect hwn. Bydd angen i'r ATC ystyried a ydynt am rannu safle'r ysgol, neu a fyddai'n well ganddynt safle ar wahân gyda'u hunaniaeth unigol. |
| Efallai y bydd gan yr ATC eu llain saethu eu hunain (nid bwledi byw), bydd angen trafod hyn ymhellach. | Bydd XX yn trafod nodiadau a wnaed yn ystod y cyfarfod gyda'r ATC ac yn hysbysu'r rheolwr prosiect os oes angen cyfarfod arall. |

**ATODIAD 10**

**Cyfarfod ymgynghori Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig gyda'r Corfflu Hyfforddiant Awyr Dydd Llun, 10 Ionawr 2022 am 11am**

Yn Bresennol: Staff CBSP x5
Llywodraethwr Ysgol x1
Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) x1

Ymddiheuriadau: Staff CBSP x1

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori gan egluro diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig. Cyflwynodd y tîm eu hunain. Dangosodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol gynllun y safle ar y sgrin ac esboniodd y camau adeiladu.

| <u>Cwestiynau/Materion</u> | <u>Atebion/Sylwadau</u> |
|---|---|
| | |
| XX Mae angen i'r ATC fod â phresenoldeb yn yr ardal. Nid yw defnyddio'r ysgol yn ddelfrydol ond gallai fod yn bosibl, efallai y bydd problemau diogelu. Holwyd a oedd mannau eraill ar brydles yn yr ardal.<br><br>XX Mae amser yn broblem. Gwerthfawrogir y 12 mis o rybudd. Dim ond ychydig o storio sydd. Mae gan y cadetiaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr lawer o ystafelloedd efelychydd hedfan y gallem eu defnyddio os oes angen. Bydd XX yn rhannu gwybodaeth am arwynebedd llawr a gofynion eraill i XX. | XX: Mae'r cytundeb prydles wedi'i warchod o dan y Ddeddf. Byddwn yn gwrthwynebu adnewyddu'r brydles. Bydd 12 mis o rybudd yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2022 a dyddiad yn cael ei bennu. Gallwn drafod ymhellach unwaith y bydd yr amserlenni yn hysbys i ni. Nid oes gennym unrhyw le arall yn yr ardal y gallwn ei gynnig ar hyn o bryd. Rydym angen gwybod beth yw eich gofynion storio a maint yr arwynebedd llawr sydd ei angen arnoch, gofynion tir a gwybodaeth am yr awyren hyfforddi. Yr cynnig gorau y gallwn ei roi i chi ar hyn o bryd yw rhannu cyfleusterau'r ysgol newydd. Bydd iawndal yn cael ei dalu o dan y Ddeddf.<br><br>Cynigiodd XX gysylltu'n uniongyrchol â XX ynghylch y brydles. |

| | |
|---|---|
| XX: Beth fydd yn digwydd i safle'r hen ysgol fabanod? Mae'r safle wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad preswyl yn y Cynllun Datblygu Lleol. Ni allwn gael mwy o ddatblygiadau preswyl os nad oes gennym wasanaethau ar eu cyfer. Mae'n bwysig cadw cyfleusterau yn yr ardal leol. A oes posibilrwydd i'r ATC ddatblygu safle yno? Byddai digon o le i'r ystafell efelychydd hedfan a'r awyren. | XX: Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd safle'r hen ysgol fabanod yn cael ei ddefnyddio. Gan ddibynnu ar ganlyniad y broses hon, bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad. |

**ATODIAD 11**

**Cyfarfod ymgynghori Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**
**Cymdeithas Rhandiroedd Pwllygath**
**Dydd Llun 10 Ionawr 2022, 4pm-5pm**

Yn Bresennol: Staff CBSP x5
Cymdeithas Rhandiroedd x4
Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) x1

Ymddiheuriadau: XX / XX

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglenni Ysgolion y sesiwn ymgynghori gan egluro diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig. Cyflwynodd y tîm eu hunain. Dangosodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol gynllun y safle ar y sgrin ac esboniodd y camau adeiladu.

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| | |
| XX: Mae yna 26 rhandir.<br>XX: Mae'r rhandiroedd yn mesur 30m x 7.5m. | XX: Bydd hyd a lled y safle yr un fath, mae lled y rhandiroedd ar y cynllun arfaethedig wedi ei ddyblu a bydd angen eu rhannu'n ddau ran i ddarparu 26 rhandir.<br>Trafododd XX y mynedfeydd a'r llwybrau. Ar hyn o bryd ceir trac 2.7m o led, bydd y trac newydd yn 3.7m o led. Eglurodd XX mai braslun dechreuol yw hwn; fe hoffai wneud cynllun safle a fydd wrth fodd pawb. |
| XX: A fydd yna ffens? | XX: Eglurwyd y bydd ffens diogelwch yn amgylchynu'r rhandiroedd ac y bydd gan bob llain ffens. Rydym yn cydymffurfio â gofynion Diogelu drwy Ddylunio, er enghraifft bydd ffensys a mesurau diogelwch / gatiau yn cael eu gosod. |
| XX: Sawl lle parcio fyddwch chi'n eu darparu? | XX: Bydd pedwar lle parcio yn cael eu cynnwys. Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn hybu teithio llesol a dulliau eraill o deithio. Mae lle i gynhwysydd diogel ar gyfer offer hefyd. |
| XX: A fydd giât ym mynedfa'r rhandiroedd? | XX: Bydd giât / rhwystr diogelwch. |

| | |
|---|---|
| XX: Bydd rhieni'r ysgol yn parcio yn y mannau parcio a ddarperir ar gyfer y rhandiroedd.<br><br>XX: Mynegwyd pryderon y gallai'r fynedfa gael ei rhwystro gan barcio anystyriol. | XX: Ni fydd rhieni yn gallu parcio yno. Bydd rhwystr. Mae'n bosibl cael clymbost gydag allwedd i bob lle parcio hefyd. Bydd y fynedfa'n cael ei defnyddio dim ond ar gyfer danfon nwyddau i'r gegin, casglu sbwriel a mynediad i'r rhandiroedd.<br><br>XX: Bydd y lle gadael plant ysgol yn cael ei wella a bydd lle parcio yn cael ei ddarparu ar gyfer y staff.<br>XX: Nid oes rheolau traffig ar hyn o bryd. Mae'r datblygiad hwn yn gyfle i sefydlu rheolau newydd, megis arwyddion “dim aros / llwytho”; mae llawer o syniadau i'w harchwilio. |
| XX: Mae llawer o draffig y tu allan i’r ysgol a gall fod yn beryglus. | XX: Bydd materion traffig yn cael sylw fel rhan o'r cynigion priffyrdd. Bydd y lôn yn cael ei datblygu i leihau problemau traffig.<br>XX: Bydd dulliau arafu traffig yn cael eu hymgorffori yn y datblygiad.<br>XX: Bydd llecyn bio-ddargadw yn cael ei greu rhwng y palmant a'r ffordd. |
| XX: Ydych chi'n bwriadu marcio pob plot? | XX: Ydym |
| XX: A yw'r tir yn gymharol wastad, neu a oes llethr? | XX: Mae'r tir ar lethr. Bydd angen torri a llenwi rhai rhannau. Mae XX wedi sicrhau y bydd llai o lethr i bob llain na'r hyn a geir ar hyn o bryd. |
| XX: A ydych wedi ystyried y ddau randir tua’r cefn ac a oes modd iddynt aros fel ag y maent? Efallai y bydd ffordd newydd yn effeithio arnyn nhw. | XX: Os gallwn wneud y gwaith heb eu symud, byddwn yn gwneud hynny. Byddwn yn ceisio gosod ffordd heb andwyo'r ddau randir. |
| XX: Mae cornel lletchwith ger y ddau randir a allai fod yn faes parcio. | XX: Bydd yn rhaid cysylltu â XX ynglŷn â pharcio. Mae nifer y lleoedd parcio yn dibynnu ar sut y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio. |
| XX: Mae tri cholomendy; beth fydd yn digwydd iddyn nhw? | XX: Mae CBSP wedi cytuno ar y colomendai. Awgryma mai'r dewis gorau yw gosod colomendy y tu allan i lain yn y rhandir a'i fod yn cael ei reoli gan Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath. Mae XX angen gwybod maint yr holl golomendai. |
| XX: A fyddwn ni'n cael tai gwydr? | XX: Bydd siediau a chasgenni dŵr yn cael eu darparu a bydd y tir ar gyfer pob llain yn cael ei drin. Nid oes cynllun i godi tai gwydr ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio cael cynllun safle fydd wrth eich bodd. Bydd |

| | |
|---|---|
| XX: A gawn ni gopi o'r cynlluniau? | manylion bychain yn cael eu trafod wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen.<br><br>Bydd XX yn diweddaru'r cynllun cyfredol ac yn rhoi copi i bawb. |
| Eglurodd XX y broses ymgynghori a gwrthwynebu. Mae'r rhandiroedd wedi anfon gwrthwynebiad mewn e-bost ond bydd yn rhaid anfon hwn eto yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ffurfiol, os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â cham nesaf y broses. | XX: nid yw'r rhandiroedd yn gwrthwynebu'r ysgol, dim ond y cynnig ar gyfer y rhandiroedd. Dywedwyd wrthym y byddech yn rhoi tebyg at ei debyg, ond nid ydych yn cynnig hynny. Dywedwyd wrthym na fyddai mynediad o gefn Stryd Pwllygath.<br><br>XX: atebodd nad oes dim yn cael ei ddiystyru; dyluniadau ar y gweill yw'r rhain. Dywedasom y byddem yn ceisio osgoi mynediad o gefn Stryd Pwllygath. Ni fyddai mynediad o Gaer Wetral yn gweithio oherwydd fod y tir ar lethr. Yn y cyfamser, dywedasoch eich bod eisiau mynediad i gerddwyr o'r lôn, felly roedd yn gwneud synnwyr inni ddychwelyd at y dewis hwnnw.<br><br>XX: Cododd pryderon y gwrthwynebiad o ganlyniad i fynediad Caer Wetral. Mae mynedfa Stryd Pwllygath yn union yr un fath â'r un bresennol ac felly'n lleddfu'r pryderon hynny. |
| XX: Rydych chi'n newid y cynlluniau o hyd.<br><br>XX: Mae'r cynlluniau yma'n gweithio hyd yn hyn. Efallai y byddwch yn eu newid eto. | XX: Proses ymgynghori yw hon a dyna pam rydym yn cynnal y sesiynau ymgysylltu hyn er mwyn datblygu'r lluniau i ddeall beth yw eich anghenion. Efallai ein bod wedi creu syniad ar y dechrau, ond mae hynny'n newid wrth i ni fynd drwy'r broses; oherwydd yr arolygon a gynhaliwyd, er enghraifft. Mae arnom angen gwybodaeth gennych chi er mwyn i ni allu ymateb i'ch gofynion a'ch anghenion chi. Heddiw fe hoffem sicrhau eich bod yn hapus gyda'r cynlluniau arfaethedig.<br>XX: Dymuna adborth ynghylch y dyluniad a gynigir ac eglurodd fod dylunio'n broses sy'n newid wrth i'r cynllun ddatblygu. Bydd mwy o luniau a newidiadau wrth i fanylion bychain ddatblygu. |
| XX: Gawn ni gadw ieir? | XX: Caniateir ieir o dan y Ddeddf. |

| | |
|---|---|
| XX:  Hoffem gael cyfle i drafod y pethau y bydd hawl gennym eu gwneud. | XX:  Gallwn drefnu hynny. |
| XX:  Pa mor bell yw'r ysgol o'r rhandiroedd? | XX:  Mae'r adeilad tua 20-25m i ffwrdd. Mae'r adeilad yn un deulawr ond ni fydd yn llawer uwch na'r adeilad presennol oherwydd lefelau'r tir.  Ni fydd y to mor serth |
| XX:  Mae’r rhandiroedd yn safle archaeolegol, beth ydych chi’n ei wneud ynghylch hynny? | XX:  Wedi ysgrifennu at yr amgueddfa ac yn aros am ateb. |
| XX:  Mae'r maes chwarae yn dynfa i fandaliaeth. | XX:  Rydym yn cydymffurfio â gofynion Diogelu drwy Ddylunio, er enghraifft bydd ffensys a mesurau diogelwch / TCC yn cael eu gosod. |
| XX:  A oes modd cael giât i blant ysgol gael mynediad i'r rhandiroedd? | XX:  Oes. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn ei gynnwys. |

| Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC) x1 | |
|---|---|
| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
| | |
| XX:  Gofynnwyd am gopi o'r ddogfen ymgynghori.<br>XX: Rhannwyd y cyflwyniad a throsolwg o'r cynllun er gwybodaeth.<br>XX: dywedodd wrth y grŵp y bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ddydd Mercher 12 Ionawr 2022. | XX: Bydd yn e-bostio'r ddolen i'r wefan. |
| XX:  A fydd lle chwarae? | XX:  Bydd, bydd yn cael ei symud ychydig fetrau o'i leoliad presennol. |
| Darparodd XX gopi papur o gynllun presennol yr ATC a gofynnodd beth yw'r cynlluniau i adleoli'r ATC.<br><br>XX:  Nid yw'n addas i'r ATC ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol | XX:  Mae Landlord Corfforaethol wedi bod yn chwilio am safleoedd eraill ar gyfer yr ATC.  Efallai y bydd cyfle iddynt ddefnyddio neuadd / cyfleusterau’r ysgol.  Bydd prif neuadd a neuadd stiwdio gyda chegin gymunedol. Bydd gan yr ysgol gae pob tywydd yn ogystal â’r iard a'r neuadd.<br><br>Byddwn angen gwybod beth yw gofynion yr ATC o ran defnyddio'r adeilad a'r anghenion storio.  Bydd XX yn gyrru e-bost at XX gyda rhestr o ofynion.<br><br>XX:  Byddwn yn gwrthwynebu adnewyddu'r brydles. Bydd 12 mis o rybudd yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2022 a dyddiad |

| | |
|---|---|
| | yn cael ei bennu. Nid oes gennym unrhyw le arall yn yr ardal y gallwn ei gynnig ar hyn o bryd. |
| Holodd y tîm ynghylch yr awyren ar safle'r ATC. | XX: mae'r awyren yn un o ddim ond deg o'i bath yn y Deyrnas Unedig. Y mae wedi'i rhestru a bydd angen ei symud gyda'r ATC. |
| Cafwyd trosolwg llafar o gynllun drafft y safle gan y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol ac fe esboniodd gamau'r gwaith adeiladu. | Cam 1: symud y rhandiroedd;<br>Cam 2: codi adeilad yr ysgol;<br>Cam 3: symud y plant iau i'r adeilad newydd a dymchwel hen adeilad yr ysgol;<br>Cam 4: Maes parcio, lleiniau a phriffyrdd. |
| Gofynnodd XX a fydd digon o le yn cael ei neilltuo ar gyfer yr ATC. Bydd yr uned wedi'i llunio'n bwrpasol, gydag ystafell gyfrifiaduron newydd ac ystafelloedd darlithio, gan gynnwys efelychydd hedfan. Maent yn Ganolfan Rhagoriaeth. | XX: Byddwn yn paratoi cynnig ac yn ystyried yr hyn y gallwn ei ddarparu ar eich cyfer. |
| Mae XX yn pryderu y bydd yr ardal yn colli'r ATC ac y bydd yn rhaid i gadetiaid deithio i rywle arall. Mae 95% o'r cadetiaid yn byw'n lleol ac yn gallu cerdded yno. | Gofynnodd XX faint o gadetiaid oedd yn mynychu'r uned. Bydd XX yn ymholi ac yn e-bostio XX. |
| Eglurodd XX fod yna ysgol wych yn Abertawe wedi gorfod lleihau ei ffiniau oherwydd diffyg cyllideb. Os bydd hyn yn digwydd yn YMC yn y dyfodol bydd yn drueni mawr. | XX: Rydym yn defnyddio'r safle i gyd ac ychydig iawn o dir sydd ar ôl i ddatblygu arno yn y dyfodol. Bydd y lle bychan sydd ar ôl yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiad ecolegol.<br>Ychwanegodd XX ein bod yn dilyn canllawiau ardal Bwletin Adeiladu 99 ar gyfer ysgolion, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. |

**ATODIAD 12**

**Gohebiaeth uniongyrchol a dderbyniwyd:**

Mae'r aelodau wedi cydsynio bod y rhandiroedd wedi'u harolygu; nid oes angen i ni gymryd unrhyw gamau.

Penderfynodd yr aelodau wrthwynebu'r cynlluniau arfaethedig hefyd, mae'r ATC hefyd bellach yn gwrthwynebu'r cynlluniau arfaethedig. Mae Mrs Carol John wedi gofyn i mi wneud hyn ar ei rhan. Bydd yn mynychu'r cyfarfod ar y degfed i gadarnhau. Rydym oll yn teimlo bod yr adran gynllunio yn gwthio'r cynlluniau yn eu blaen heb ein hystyried ni na'r ATC. Y cyfan a glywn yw addewidion gwag.

Derbyniwch yn awr mai gwrthwynebiad llwyr i'ch cynlluniau yw'r e-bost hwn ac fe fydd y cyfan yn cael ei egluro gennym ni a'r ATC yn y cyfarfod ar 10/01/22.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol:**

Diolch am eich e-bost, bydd barn Cymdeithas Rhandiroedd Pwllygath yn cael ei chynnwys yn ein hadroddiad i'r Cabinet.

**Gohebiaeth uniongyrchol a dderbyniwyd:**

Deallwn fod ymgynghoriad Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig wedi dechrau yr wythnos hon.

Rydym wedi ein synnu ac yn siomedig nad oes ystyriaeth sylweddol wedi'i rhoi i'r effaith y bydd cynllun yr ysgol hon yn ei chael ar Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y sir na sut y bydd yr effeithiau hynny'n cael eu lliniaru. Yn wir, tynnwyd cynllun i agor Ysgol Gymraeg o'r cynllun Band B ar gyfer adeilad newydd Ysgol Mynydd Cynffig. Dyma ergyd galed arall i Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Yn wir, mae’r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg fel ag y mae yn gwbl annerbyniol ac mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn datgan bod yr effaith ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amherthnasol. Mae hyn yn gywilyddus a gofynnwn yn garedig i chi ohirio’r ymgynghoriad hwn nes bod asesiad llawn o’r effaith ar y Gymraeg wedi’i gwblhau fel rhan o’r ymgynghoriad.

Yn ogystal â hyn, dymunwn weld y Fforwm Addysg Gymraeg yn cael ei adnabod fel ymgynghorai yn y broses hon hefyd.

Byddwn yn ysgrifennu at Gomisiynydd y Gymraeg i nodi cwyn am fethiant yr ymgynghoriad i gynnwys asesiad llawn o effaith y cynllun hwn ar yr iaith Gymraeg.

Edrychwn ymlaen at dderbyn copi o'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg pan fydd wedi'i gwblhau a'r drafodaeth yn y Fforwm Addysg Gymraeg nesaf.

**Gohebiaeth uniongyrchol a dderbyniwyd:**

V1

**Ymateb Rhieni Dros Addysg Gymraeg i ymgynghoriad**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**ar y**

**Cynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy ehangu.**

**10 Ionawr 2022**

Dymuna RhAG ddiolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y **Cynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy ehangu.**

Yn gyntaf, dymunwn nodi ein bod yn sylweddoli maint y gwaith a ddaw wrth aildrefnu ysgolion yn yr G21ain. Y mae RhAG wedi cydweithio'n gadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf gyda swyddogion y sir ac wedi bod yn cyfrannu syniadau a strategaethau er mwyn sicrhau tegwch i ddarpariaeth Addysg Gymraeg. Gyda dyfodiad y cynlluniau 10 mlynedd y mae cyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i hygyrchedd Addysg Gymraeg o fewn Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Wrth ddarllen y ddogfen ymgynghori ar y newid i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, cawsom ein siomi'n arw gan nad yw'n mesur yr effaith posibl y gallai'r cynllun hwn ei gael ar addysg Gymraeg ac yn enwedig ar ddatblygiadau Ysgol Gymraeg y Ferch o'r Sgêr a Ysgol Gyfun Llangynwyd.

Mae gan y weithred o ymgynghori'r cyfrifoldeb i fesur yr effaith ar nifer o wahanol agweddau yn cynnwys y Gymraeg.

I fod yn glir, nid dweud yr ydym na ddylai'r cynllun fynd yn ei flaen ond yn hytrach dweud yr ydym nad yw'r ymgynghoriad yn ddigon tryloyw o ran yr effaith ar y Gymraeg nac wedi cynnwys digon o fanylion am effaith y cynnydd hwn mewn ysgol cyfrwng Saesneg lleol, ar addysg Gymraeg yr ardal. Nid yw ychwaith wedi nodi'r camau i liniaru'r effeithiau negyddol posibl ar addysg Gymraeg yn yr ardal.

Nodwch yn y cyflwyniad, y bydd yna gynyddu'r niferoedd o leoedd yn yr ysgol o 100 o leoedd. Y mae hyn yn gynnydd arwyddocaol sydd angen mesur ei effaith ar y datblygiad ar nid yn unig Ysgol Gymraeg y Ferch o Sgêr ac Ysgol Gyfun Llangynwyd ond hefyd ar y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gyffredinol. Mae cam cyhoeddus unrhyw ymgynghoriad fel arfer yn cael ei gymryd pan fydd y prosesau cynllunio mewnol ac asesu effaith wedi eu cwblhau'n drylwyr ond ni allwn weld tystiolaeth o hyn o ran yr effaith ar y Gymraeg nac ar Addysg Gymraeg o fewn yr ardal hon o'r sir.

Nid ydym o'r farn bod y Gymraeg wedi bod yn agwedd graidd o'r broses hon. Nodwn ein rhesymau isod:

- Nid yw Fforwm Addysg Gymraeg Sir Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael y cyfle i nodi ei safbwynt ar y cynllun hwn wrth i'r cynllun gael ei lunio. Mae hyn yn siomedig gan fod gan y fforwm arbenigedd eang a fyddai wedi gallu cynghori'r swyddogion ar yr effeithiau posibl hyn i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.
- Y mae nifer o siroedd ar draws Cymru erbyn hyn yn cynnwys adborth gan aelodau fforwm Addysg Gymraeg mewn unrhyw waith cynllunio. Pan mae cynigion i ddatblygiadau arwyddocaol mewn ysgolion lleol yn digwydd a allai gael effaith ar addysg Gymraeg, gall fewnbwn gan y Fforwm Addysg Gymraeg fod yn werthfawr yn enwedig i sicrhau bod unrhyw gynllun yn wydn o ran y Gymraeg. Byddai wedi cael y cyfle i gyfrannu adborth i'r cynllun hwn er mwyn cynnwys elfen gref o gynorthwyo gyda'r gwaith o hyrwyddo addysg Gymraeg yn yr ardal, wedi bod o fudd wrth i'r cynllunio i ddigwydd yn hytrach nag ar ddiwedd y broses.
- Yn y sgrinlun isod, yr ydym wedi'n synnu bod dwy groes yn y blwch "Dim effaith" ar gyfer y ddau bwynt a nodir.

**Yr Iaith Gymraeg**

A yw'n bosibl y bydd unrhyw agwedd o'r polisi neu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

***Noder: Os byddwch yn nodi effaith negyddol ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, bydd angen i chi gasglu tystiolaeth bellach i gwblhau AEA llawn.**

| | Rhowch X yn y blwch perthnasol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Effaith (effeithiau) cadarnhaol | Effaith (effeithiau) negyddol | Dim effaith | Esboniad o'r effaith |
| A fydd y polisi neu'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg | | | X | |
| A fydd y polisi neu'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | | | X | |

*https://www.bridgend.gov.uk/media/12402/211119-ysgol-mynydd-cynffig-consultation-report-v1-welsh.pdf tudalen 37*

Mae adran 3.4 y Cod Trefniadaeth Ysgolion, Llywodraeth Cymru yn nodi:

***Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg***

- *i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd.*
- *sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg.*

*Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.*

Nid yw'r ddogfen wedi cyflawni'r cyfrifoldeb yn ôl y cod. Tra bod ffurflen sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) Atodiad C yn cynnwys cyfeiriad at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar dudalen 35, ni allwn weld unrhyw ddogfen bellach sydd yn ymhelaethu ar yr effaith yn ôl gofyniad y cod.

Y mae'r cod hefyd yn nodi'r isod:

> Pan fydd unrhyw ysgol sy'n rhan o gynnig neu y mae cynnig yn effeithio arni yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:
>
> - asesiad o effaith y cynnig ar y Gymraeg (rhaid cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, naill ai ym mhrif ran y ddogfen ymgynghori neu fel atodiad);
> - esboniad o sut mae'r cynnig yn ffurfio rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf Adran 3.4 tudalen 37 Côd Trefniadaeth Ysgolion, Llywdoraeth Cymru.

- Mae'r cod yn glir bod **rhaid** asesu'r effaith ar y Gymraeg. Erbyn hyn yng Nghymru y mae pob ysgol yn dysgu rywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg, hyd yn oed yn ein hysgolion Saesneg. Mae'r ysgolion Cymraeg yn yr ardal hefyd yn rhan annatod o'r ymgyghoriad hwn ac felly byddwn wedi disgwyl gweld yr asesiad effaith cfan yn rhan o ddogfennaeth ymgynghoriad hwn.
- Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i fesur yr effaith eu hunain yn gyntaf a dangos yr effaith posibl a chynnig ffyrdd i'w lliniaru yn rhan o'r ymgynghoriad o'r cychwyn.
- Mae'r ffaith nad oes unrhyw effaith negyddol wedi ei gofnodi'n rhan o'r asesiad AEG hwn yn ein pryderu'n fawr ac yn dangos diffyg dealltwriaeth o gyfrifoldeb y Cyngor wrth asesu effaith cynlluniau ar y Gymraeg yn enwedig wrth baratoi'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Nodwch ar dudalen 7 egwyddorion clodwiw i'w mabwysiadu fel fframwaith ar gyfer trefniadaeth ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddwn wedi disgwyl hyn hefyd wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

Nodwch:

i. Ymrwymiad i safonau uchel a rhagoriaeth yn y ddarpariaeth.
ii. Cyfleoedd cyfartal, fel bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu o ansawdd, ni waeth pa ysgol y maent yn ei mynychu.
iii. Ysgolion cynhwysol, sy'n darparu ar gyfer anghenion dysgu eu holl ddysgwyr.
iv. Ysgolion bro, lle mae'r ysgol yn ymgysylltu'n weithredol â'i chymuned.
v. Gwerth am arian.

- Nid ydym am amddifadu unrhyw ddysgwr o ddarpariaeth addysg G21ain, ond y mae'n bwysig bod ystyriaeth deg yn cael ei wneud o bob cynllun newydd fel bod modd sicrhau camau lliniaru cadarn petai risg yn dod i'r amlwg.
- Yr ydych ar dudalen 11 wedi cynnig asesiad effaith ar y Gymraeg, ond yr ydych wedi methu ag ystyried yr effaith o gynnydd o 100 o leoedd yn Ysgol Mynydd Cynffig, ar Ysgol Gymraeg y Ferch o Sgêr sydd o fewn ardal cymuned Ysgol Mynydd Cynffig a lle y mae dysgwyr cynradd yn mynychu ar hyn o bryd.
- Gan nad oes gan ysgolion Cymraeg dalgylchoedd yn y sir, dylid bod wedi cynnal astudiaeth fanwl o'r effaith ar Ysgol y Ferch o Sgêr ar gyfer yr ymgynghoriad hwn er mwyn dangos yn gyntaf eich bod wedi dilyn y cod trefniadaeth ysgolion yn gywir drwy gyfeirio ar yr effaith y byddai'r 100 o leoedd ychwanegol yn ei gael ar allu'r Cyngor i gyrraedd ei darged yn neilliant 2 o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 y sir ac yn ail i gynnig datrysiadau i'r risgiau hynny.

Beth yw'r risgiau a'r camau lliniaru posibl felly?

- Byddwn yn cynnig bod risg ychwanegol i'w nodi ar dudalen 13 sef "niferoedd ceisiadau ar gyfer Ysgol Gymraeg y Ferch o'r Sgêr yn gostwng". Byddai angen gweld camau lliniaru gyda'r risg hwn yn glir.
- Byddai wedi bod o fudd i nodi'r cynllun sydd ar waith i ehangu Ysgol y Ferch o'r Sgêr hefyd o fewn asesiad effaith ar y Gymraeg. Mae ffrwd newydd am fod ar gael yn yr ardal a byddai wedi bod o fudd i osod yn glir bod hyn yn mynd i liniaru ychydig ar y sefyllfa.
- Byddai nodi cynlluniau eraill y sir i ddatblygu Addysg Gymraeg wedi bod o fudd yn ogystal mewn astudiaeth effaith ar y Gymraeg.
- Byddwn yn nodi er hyn bod yna wahaniaeth rhwng canfyddiad cymunedol o ddarpariaeth newydd sbon a darpariaeth wedi ei ailfodelu. Byddai camau hyrwyddo i liniaru wedi bod yn bwysig i'w nodi yma.
- Y mae'r cynnig wedi methu â chydnabod yr effaith posibl chwaith ar niferoedd yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Llangynwyd o'r ardal hon yn benodol ac yn ei sgil yn esgeuluso'r cyfrifoldeb i gryfhau targedau deilliant 4 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- A fyddai darpariaeth newydd i hwyrddyfodiaid yn gallu digwydd ar safle Ysgol y Ferch o'r Sgêr?

Dim ond syniadau cychwynnol yw'r uchod a byddwn wedi bod yn sicr y byddai aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg wedi medru cynnig syniadau a sylwadau adeiladol pellach.

Rydym yn siomedig gydag ymateb y sir i beidio ag oedi ar yr ymgynghoriad hwn tan fod yna asesiad effaith iaith ddigonol wedi ei ddarparu yn rhan o'r ymgynghoriad – fel y mae'r cod yn gofyn amdano.

Cyflwynwyd cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg am y ddogfen hon a'r diffyg astudiaeth effaith trwyadl a thryloyw ar y Gymraeg gan ein bod yn amau eich bod wedi torri safonau iaith 91, 92 a 93.

Anghytunwn felly gyda'r cynigion i ymestyn yr ysgol fel ag y mae, gan nad oes astudiaeth lawn o'r effaith ar y Gymraeg ac yn benodol ar Ysgol Gymraeg y Ferch o'r Sgêr, Ysgol Gyfun Llangynwyd ac ar Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg.

Dymunwn weld astudiaeth effaith a chynllun hyrwyddo cynhwysfawr cyn gynted ag y bo modd i sicrhau na fydd y cynllun hwn yn cael effaith andwyol ar addysg Gymraeg yn yr ardal.

Byddwn yn barod i drafod ein hymateb gyda swyddogion a chynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar unrhyw amser cyfleus fel arfer.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol:**

Ni ellid cwblhau cynllun De-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr ym Mharc Afon Ewenni (ysgol dwy ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg mynediad dau ddosbarth arfaethedig), heb i'r datblygiad preswyl oedd ar y gweill fynd yn ei flaen. Gan fod oedi cyn dod â'r datblygiad preswyl a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ymlaen, (yr oedd angen i'r cynllun ysgol gyd-fynd ag ef), nid oedd modd cyflawni'r ddarpariaeth o fewn y cyfnod Band B. Felly, oherwydd problemau difrifol gydag adeilad y babanod, penderfynodd y Cabinet gyflwyno cynllun ar gyfer adeiladu Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig newydd.

Mae trefniadaeth ysgolion yn cael ei llywodraethu'n llym gan ddeddfwriaeth, sef Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) yn bennaf.

Mae'r Côd yn nodi'n glir holl gamau'r broses ymgynghori ynghyd â'r ymgyngoreion statudol. Yn anffodus, nid yw'r Fforwm Addysg Gymraeg yn un o ymgyngoreion penodedig y Côd (fodd bynnag, mae croeso i unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad wrth gwrs).

Fel rhan o'r broses ymgynghori cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ynghyd ag asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn unol â'r Côd.
Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a gofynion y côd.

Mae'r Côd yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu Addysg Gynradd ac Uwchradd i'r ardal. Mae'r Côd hefyd yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg pan fydd cynigion yn effeithio ar ysgolion sydd â'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu (pynciau heblaw'r Gymraeg) yn rhannol neu'n gyfan gwbl.

Ym mhob achos arall, dylai Awdurdodau Lleol ystyried:
*Effaith y cynnig ar dargedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd.
*Sut y byddai'r cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg ac yn achos yr olaf, yn nodi pam y byddai llai o ddarpariaeth.

Mae ymgynghoriad Mynydd Cynffig yn ymwneud yn benodol ag ehangu ysgol cyfrwng Saesneg sydd eisoes yn bodoli (h.y. nid y Gymraeg yw'r cyfrwng addysgu – mae'n ysgol cyfrwng Saesneg sy'n defnyddio dogfen Llywodraeth Cymru 23/2007 "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg"). Mae'r ysgol bresennol wedi'i rhannu ar ddau safle, mae'n orlawn ac mae adeilad yr ysgol fabanod mewn cyflwr gwael iawn ac nid yw'n addas i'r diben. ERbyn hyn mae adran y cyfnod sylfaen wedi ei lleoli'n bennaf mewn ystafelloedd dosbarth symudol. Y cynnig yw dod â'r adrannau babanod ac iau at ei gilydd ar un safle.
Mae'n bwysig sylweddoli bod y cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn deillio o'r problemau gorlenwi sy'n bodoli ar hyn o bryd. O'r herwydd, ni ragwelir y bydd

unrhyw effeithiau negyddol ar addysg cyfrwng Cymraeg yr ardal pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

Er bod cynnig Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, am y rhesymau a nodir uchod, wedi'i asesu gan yr awdurdod lleol fel un sy'n debygol o fod yn niwtral o ran ei gefnogaeth i dargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd, dylid nodi mai ysgol cyfrwng Cymraeg yr ardal hon yw Ysgol Y Ferch O'r Sger. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ehangu'r ysgol honno hefyd ac mae'r ehangu arfaethedig wedi bod yn destun ymgynghoriad ar wahân (a nododd yr effeithiau a ragwelir ar dargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg) a'i gymeradwyo gan y Cabinet. Felly, mae'r ysgol cyfrwng Saesneg a'r ysgol cyfrwng Cymraeg i gael eu hymestyn yn yr ardal hon. Nid yw cynnig Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ei hun yn cynyddu nac yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Nid yw'r Côd Trefniadaeth Ysgolion Statudol yn argymell trefn asesiadau effaith, dim ond nodi'n syml y dylai asesiadau effaith, yn ddelfrydol, gael eu cynnwys mewn dogfennau ymgynghori. Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal asesiad effaith cychwynnol (a fydd, fel yr eglurir yn y ddogfen ymgynghori, yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r ymatebion a ddaw i law).

Caiff asesiadau effaith eu hadolygu a'u diweddaru'n barhaus drwy gydol y broses. Gwelir yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i ddiweddaru yn atodiad 16 ar dudalen 64.

## ATODIAD 13

**Ymatebion (Arolwg Ar-lein Snap)**

**Ydych chi'n (ticiwch):**
Rhiant/gwarcheidwad (37) 52%
Staff ysgol (20) 28%
Rhywun arall â diddordeb (nodwch) (10) 14%
Llywodraethwr ysgol (4) 6%
Disgybl ysgol (-)

**A ydych yn cefnogi'r cynnig:**
Nac ydw (8) 11%
Ydw (65) 89%

**Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig – nodwch pam:**

Mae'r materion ynghylch parcio yn beryglus iawn. Nid oes digon o le parcio yn y strydoedd cyfagos ar gyfer y ddarpariaeth bresennol. Fel rhiant a phreswylydd rwy'n gwrthwynebu'r cynllunio. Mae'n beryglus i ddisgyblion. Ac mae rhwystr i drigolion. Hyd nes y gellir darparu lle parcio addas, teimlaf y dylid symud y cynllun i ardal fwy addas ac agored.

Ni allaf gefnogi cynnig sydd heb wybodaeth am gynlluniau safle’r babanod. Nid wyf ychwaith yn cefnogi’r cynnig hwn ar hyn o bryd oherwydd y cynnydd yn nifer y disgyblion ar y safle hwn sy'n golygu rhagor o blant yn cael eu danfon i’r ysgol mewn car a’r lôn hon yn dod yn fwyfwy peryglus. Nid yw'r cyngor yn cefnogi ymdrech yr ysgol i gadw'r lle yn barth di-geir ar amseroedd dechrau a gorffen y diwrnod ysgol. Wn i ddim pa dir sy'n mynd i gael ei ddefnyddio ar gyfer y rhandiroedd neu'r parc? Rwy'n teimlo bod hwn yn rhan arall o fyd natur sy'n cael ei ddinistrio heb feddwl yn greadigol ac yn feirniadol.

Mae'r safle yn rhy fach ar gyfer ysgol gynradd. Mae traffig eisoes yn wallgof gyda dim ond yr ysgol gynradd. Rwyf wedi gweld ceir di-ri yn cyflymu ar hyd Stryd Garth, bron â tharo plant dim ond er mwyn osgoi'r goleuadau traffig er mwyn danfon eu plant i'r ysgol. Mae angen meddwl o ddifrif am gysylltiadau ffyrdd cyn gwneud hyn, cyn i blant ac oedolion gael eu lladd.

Pryderon parcio a thraffig. Fel un o drigolion Stryd Garth, mae problemau parcio difrifol ar rai adegau o’r dydd yn y maes parcio y tu ôl i'n tŷ. Weithiau bydd pobl yn parcio y tu allan i'n garej ac ni allaf gyrraedd fy ngwaith mewn pryd. Mae'r maes parcio ei hun mewn cyflwr difrifol hefyd. Rwyf wedi codi hyn gyda'r sefydliad Cymoedd i Arfordir ond nid oes dim wedi cael ei wneud yn ei gylch.

Adeiladwyd y ffyrdd ar gyfer ceffylau a cherti, nid ceir. Mae tagfeydd traffig difrifol ar y ffyrdd pan fydd rhieni'n danfon a chasglu'r plant o'r ysgol bresennol.

Mae gennym ormod o draffig ar hyn o bryd a bydd hyn yn ei ddyblu. Mae rhai o'r rhieni mor ddigywilydd, maen nhw'n parcio lle maen nhw'n dymuno ac yn gwrthod symud hyd yn oed pan fyddant yn ein rhwystro ni rhag cael mynediad i'n heiddo ein hunain. Rwy'n synnu na ddigwyddodd damwain. Nid yw'r bobl sy'n gweithredu'r cynnig hwn yn byw yn y stryd yma; ni fyddent yn dioddef hyn ger eu heiddo eu hunain. Ac mae rhoi maes chwarae arall yno yn chwerthinllyd pan mai pur anaml y defnyddir yr un presennol. Lle arall i godwyr twrw gicio'u sodlau gyda'r nos gan beri mwy o ofid i'r trigolion.

Mae hyn yn chwerthinllyd.  Fe fydd hi'n afresymol o brysur yn yr ardal a bydd y strydoedd hyd yn oed yn fwy prysur nag y maent ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae'r sefyllfa draffig o gwmpas yr ysgol yn beryglus iawn ac ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn gwneud y traffig yn waeth o lawer.

**Os hoffech awgrymu newidiadau neu gynigion gwahanol i'r rhai a gyflwynwyd, rhowch fanylion:**

Rwy'n meddwl mai dyma'r canlyniad gorau ar gyfer ysgol mor wych.

Mewn egwyddor, rwy'n cefnogi dod â'r ddau gyfnod allweddol ynghyd ond nid wyf yn cefnogi defnyddio safle'r babanod ar gyfer rhagor o dai. Os ydym am ddod â’r ddau safle ynghyd, dylid defnyddio safle'r babanod hefyd i gefnogi a gwella ansawdd bywyd cenedlaethau’r dyfodol.

Ni allaf ddweud a wyf yn cefnogi'r newid ai peidio gan nad wyf yn meddwl fy mod wedi cael yr holl wybodaeth. Beth fydd yn digwydd i safle'r babanod ar ôl iddo gau? A fydd rhywbeth sydd o fudd i’r gymuned leol yn dod yn ei le, neu a fydd y safle yn cael ei werthu ar gyfer datblygiad preifat? Rwy'n gobeithio mai'r dewis cyntaf fydd yn digwydd. A gaf i weld map o'r datblygiad arfaethedig ar gyfer y safle iau? Ni allaf ddychmygu i ble bydd y rhandiroedd yn mynd nac ymhle bydd y parc newydd yn y pen draw. Nid oes palmant diogel ar y lôn sy'n arwain at y safle iau ac mae eisoes yn beryglus ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. A ellir gwneud y lôn yn un ddi-draffig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol?

Dewis arall - oni ellir defnyddio safle'r babanod yn lle hyn?

Mae angen offer ac adeilad modern ar blant. Mynychodd fy mhlant y ddau safle ac mae'r staff yn defnyddio'r cyfleusterau hyd eithaf eu gallu. Mae'n siŵr y bydd offer newydd o'r radd flaenaf o fudd i'r plant. Bydd staff a phlant yn elwa o'r symudiad hwn.

Fy unig bryder yw'r traffig ar Stryd Pwllygath, mae Nain yn byw yno nawr ac mae'n anhrefn gyda dim ond y plant iau yno ac mae wedi bod felly ers i mi fod yn yr ysgol honno. Byddwn yn ystyried llwybrau amgen i'r ysgol efallai?

Gwario'r arian ar adnewyddu ysgol y babanod; mae'n ysgol hyfryd ac o'r maint cywir i'n plant gael yr addysg orau, nid ysgolion enfawr lle maen nhw'n mynd ar goll.

Parcio ar y safle.

Ceisiwch ddod o hyd i safle mwy diogel i'r plant, os gwelwch yn dda.

Ie, ei rhoi yn rhywle gyda gwell ffyrdd.

Pam na ellid ailadeiladu ysgol y babanod ar y safle gwreiddiol? Mae'r plant i gyd yn yr ysgol nawr ac ni fyddai dim yn tarfu arnynt yn y dyfodol.

Rwy'n cefnogi'r cynnig yn llwyr. Mae angen i'r ysgol gynradd fod ar un safle er mwyn gweithredu'n iawn fel ysgol gynradd. Gyda'r ysgol yn ehangu rwy'n teimlo y dylai fedru cynnig darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn anffodus mae cynnydd yn yr angen am hyn o fewn y gymuned ac ychydig iawn o ysgolion o fewn CBSP sydd â'r ddarpariaeth hon.

Chwiliwch am faes parcio ar gyfer y rhieni gan ei bod yn beryglus ar hyn o bryd; mae'n rhaid i bobl sy'n cerdded fod yn ofalus wrth osgoi'r ceir gan nad oes neb yn malio dim yno.

Sylwadau/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau:

**Os hoffech awgrymu newidiadau neu gynigion gwahanol i'r rhai a gyflwynwyd, rhowch fanylion:**

Heb os nac oni bai, mae'r cyfle i ddod â'r Ysgol Fabanod a'r Ysgol Iau at ei gilydd ar un safle, mewn adeilad ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn un cadarnhaol iawn i'r plant a'u teuluoedd yng nghymuned Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig. Dywedodd yr arolwg ysgol blaenorol a gawsom yn 2017 y byddai'r ysgol, tra'i bod ar ddau safle, yn wynebu anawsterau cynyddol o ran symud yn ei blaen ac ni allwn ond cytuno â hynny. Mae ein staff addysgu a chynorthwyo gwych yn parhau i wneud popeth o fewn eu gallu i gydweithio'n glòs, er enghraifft, wrth weithredu a gwreiddio ein hymrwymiad i'r Cwricwlwm i Gymru, er gwaethaf y rhwystr o fod ar y naill ochr a'r llall i bentref Mynydd Cynffig. Byddai bod ar yr un safle yn dod â ni i gyd yn nes at ein gilydd, er mwyn sicrhau ein bod yn teimlo'n 'un ysgol' yn hytrach na dal i fod yn Fabanod ac Iau. Rwy'n cefnogi'r prosiect hwn yn fawr iawn ac yn hyderus y caiff effaith gadarnhaol tu hwnt ar ddyfodol y pentref, y dref, yr Awdurdod Lleol a thu hwnt. Mae
gan ein plant gwych botensial anhygoel a thrwy sicrhau'r amgylchedd cywir gyda phawb yn gweithio tuag at yr un nod, o dan yr un to, gellid cyflawni pethau rhagorol.

Rwy'n cefnogi'r lleoliad presennol.

Mwy o ystafelloedd adnoddau. Nid yw pedair yn ddigon ar gyfer y ddau gyfnod, sylfaen a CA2.

Mae hyn yn hanfodol er mwyn paratoi'r ysgol ar gyfer y dyfodol.

Dim parc o flaen yr ysgol. Dylai fod ymhellach oddi wrth y fynedfa. Lle chwarae/dosbarth unigol y tu allan i fynedfa pob dosbarth sylfaen. Gormod o leiniau. Gellir defnyddio'r un un ar gyfer yr holl chwaraeon awyr agored.

**Unrhyw sylwadau eraill:**

Mae angen edrych ar barcio er mwyn i hyn fynd yn ei flaen.

Yn hytrach na symud y rhandiroedd i le cyfagos ar yr un tir, gellid eu symud i safle’r babanod (dim ond 0.4 milltir i ffwrdd). Nid wyf yn fodlon bod safle’r cadetiaid yn rhan o safle’r ysgol. Mae'r rhain yn bethau ar wahân ac rwy'n meddwl y dylent aros felly. Gellid datblygu safle'r babanod fel safle awyr agored hyfryd i blant. Nid oes dim byd cyffrous a chreadigol i'n plant ym Mynydd Cynffig. Dylai'r ysgol gael parth dim car / di-draffig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. NEU fe ddylem ofyn pam mae cynifer o bobl yn danfon eu plant i'r ysgol mewn ceir pan ddylen nhw i gyd fod yn byw o fewn pellter cerdded!

Nid wyf yn erbyn y cynnig i symud yr ysgol fabanod i'r safle iau ond fe hoffwn weld y darlun cyflawn cyn y gallaf gefnogi neu wrthwynebu'r cynlluniau. Y testun pryder mwyaf i mi yw llwybrau cerdded diogel i’r ysgol am nad oes gennym rai ar hyn o bryd ac mae’n fy mhoeni'n ddyddiol.

Beth yw'r cynlluniau ar gyfer safle'r babanod? Beth fydd yn digwydd i'r rhandiroedd, safle'r cadetiaid awyr ac ati? I ble y byddant yn cael eu symud? A oes mynedfeydd/llwybrau eraill i’r ysgol yn cael eu cynnig gan fod y lôn gefn eisoes yn brysur iawn ac yn beryglus yn ystod amser ysgol. Fel arall, a fydd gwahanol amseroedd dechrau a gorffen i'r plant?

Mae ar bentref Mynydd Cynffig angen yr adeilad ysgol newydd yma  i fynd ymlaen; mae pob ardal arall yn cael adeilad newydd; rydym wedi bod yn aros yn ddigon hir nawr; dwi'n credu mai ein tro ni yw hi nawr dwi'n credu.

Trefniadau parcio i rieni sy'n danfon/casglu disgyblion. Mae'r ffordd lle mae'r ysgol ar hyn o bryd yn llawn tagfeydd yn y boreau a'r prynhawniau yn ystod cyfnodau casglu plant.

Does dim parcio yn barod; ble mae pawb yn mynd i barcio?

Byddai angen edrych ar drefniadau parcio / traffig hefyd.

Ystyriwch y trigolion lleol cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Unrhyw sylwadau eraill:**
Mae'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd newydd ar y safle y tu ôl i Stryd Pwllygath yn gyfle i ddarparu ysgol 21ain ganrif i blant Mynydd Cynffig. Mae cael ysgol ar ddau safle fel sydd gennym ar hyn o bryd yn peri anawsterau o ran trefn ac o ran staff; gall hyn effeithio ar yr addysgu a'r dysgu. Sylweddolaf fod gan y safle arfaethedig broblemau ac nad oes lle i ehangu. Fodd bynnag, gan nad oes safle amlwg arall ar gael, y cynnig presennol yw'r un gorau.

Gobeithio y bydd hyn yn gweithio.

Rwy'n meddwl ei bod yn hen bryd i'r ysgol gynradd newydd hon ar un safle gael ei hadeiladu ac fe ddylai gael ei chwblhau cyn gynted â bo modd. Mae ar y plant angen adeilad addas ar un safle i ddod â'r ysgol gyfan ynghyd.

Dylai'r ysgol newydd fod yn flaenoriaeth. Mae angen ysgol 3-11 ar y gymuned lle gallwn ni fod gyda'n gilydd ar un safle.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i ddisgyblion a holl staff yr ysgol. Er bod y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol dau wedi'u cyfuno ers blynyddoedd, mae manteision lu i'r holl ddisgyblion fod gyda'i gilydd ac fe ddylid edrych ymlaen at hyn. Rhoddwyd sylw manwl i rwystrau posibl a gobeithiwn y gallwn edrych ymlaen at y cam nesaf.

Bydd yr ysgol newydd hon o fudd i holl blant yr ardal a'r gymuned.

**Ymatebion/esboniadau yr Awdurdod Lleol i'r crynodeb o'r materion a godwyd:**

**Parcio, pryderon traffig, danfon a chasglu o'r ysgol**
Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch parcio, traffig a phryderon yn ymwneud â danfon a chasglu disgyblion. Bydd unrhyw faterion traffig sy'n ganlyniad i'r cynnig yn cael sylw fel rhan o'r cynigion priffyrdd mewn ymgynghoriad agos â'r Awdurdod Priffyrdd. Bydd lôn Pwllygath yn cael ei datblygu a'i lledu i liniaru'r cynnydd mewn traffig. Bydd dulliau lleihau cyflymder ynghyd â gorchmynion traffig 'dim parcio' a 'dim aros' yn ystod amser danfon a chasglu disgyblion yn cael eu hymgorffori yn y datblygiad. Bydd llecyn bio-ddargadw (glaswellt) yn cael ei greu rhwng y palmant a'r ffordd i wahanu cerddwyr a cherbydau er mwyn diogelu cerddwyr. Mae maes parcio staff wedi'i gynnwys yn y cynllun, ynghyd â maes parcio ar gyfer y gymdeithas rhandiroedd. Bydd y mynedfeydd a'r mannau gadael a chasglu plant yn cael eu pennu yn ystod y cam dylunio manwl; byddant yn cael eu dylunio yn unol â'r canllawiau dylunio priffyrdd diweddaraf ac yn cael eu llywio gan Asesiad Trafnidiaeth llawn. (Mae Asesiadau Trafnidiaeth yn ystyried effaith datblygiad ar bob dull trafnidiaeth, yn cynnig syniadau sut i leihau effaith datblygiad ar y rhwydwaith trafnidiaeth ac yn hyrwyddo dulliau o annog trafnidiaeth gynaliadwy ac ecogyfeillgar). Bydd gwelliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith trafnidiaeth (gan gynnwys mannau croesi, llwybrau troed, llwybrau beicio) a nodir gan yr Asesiad Trafnidiaeth yn rhan o'r cynllun adeiladu newydd arfaethedig. Bydd yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yn datblygu

ac yn gweithredu cynllun teithio i'r ysgol er mwyn annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio sgwter fel ffordd arall o deithio.

**Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig – safle'r hen ysgol fabanod**

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd safle'r hen ysgol fabanod yn cael ei ddefnyddio. Gan ddibynnu ar ganlyniad y broses ymgynghori, bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad. Nid yw safle'r ysgol fabanod yn ddigon mawr i'r ysgol fabanod a'r ysgol iau gyda'i gilydd. Ym mis Mawrth 2019 nodwyd bod cyflwr adeilad y babanod yn un categori D (h.y. gwael/angen gwaith ar fyrder) gyda chostau'r gwaith cynnal a chadw yn £1,094,891. Oherwydd cyflwr yr adeilad, penderfynodd yr awdurdod gau y rhan fwyaf o'r mannau addysgu a gosod ystafelloedd dosbarth symudol yn eu lle dros dro. Cadarnhaodd yr adroddiad cyflwr nesaf fod costau'r gwaith cynnal a chadw wedi gostwng i £767,323, o ganlyniad i osod yr ystafelloedd dosbarth symudol. Bydd yr ysgol newydd yn ysgol gynradd fodern ar gyfer yr 21ain Ganrif.

**Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig – safle'r ysgol iau**

Nid yw'r awdurdod lleol yn derbyn y pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad bod maint safle'r ysgol iau arfaethedig yn annigonol. Dangosodd y dadansoddiad 'profi maint' safle a wnaed bod digon o le i'r ysgol gynradd 21ain ganrif newydd arfaethedig ar y safle. Roedd y Bwletin Adeiladu (Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd) yn argymell bod ardaloedd ar gyfer ysgolion cynradd newydd (gan gynnwys pob math o ofod mewn ysgolion cynradd e.e. ardaloedd addysgu, gofod crwydro, caeau chwarae, cyrtiau chwaraeon, ardaloedd chwarae meddal, ardaloedd chwarae caled a lle i gynefinoedd) yn cael eu cymharu â'r tir sydd ar gael ar y safleoedd i sicrhau eu bod o faint digonol. Byddai dyluniad yr ysgol newydd arfaethedig yn unol â safonau dylunio'r Bwletin Adeiladau (a bydd llwyr ystyriaeth i edrychiad, ffensio, plannu, gofal a diogelwch, preifatrwydd, materion amgylcheddol, ynni, awyru, acwsteg a goleuo). Bydd angen i'r ysgol newydd ddefnyddio tir sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio gan y rhandiroedd, yr ATC a'r maes chwarae. Unwaith y bydd yr ysgol wedi'i hadeiladu, ni fydd unrhyw dir dros ben ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Bydd y darnau bach o dir fydd ar gael yn cael eu datblygu at ddibenion ecolegol. Mae'r ysgol iau yn adeilad categori C (h.y. gwael, gyda diffygion mawr ac/neu nid yw'n gweithredu yn ôl y bwriad) gyda gwaith cynnal a chadw gwerth £304,550 angen ei wneud.

Cymdeithas Rhandiroedd Pwllygath

Byddai angen symud rhandiroedd Stryd Pwllygath. Fodd bynnag, mae'r tîm dylunio wedi dangos y gellir rhoi'r rhandiroedd ar dir gerllaw'r safle iau. Bydd y fynedfa o'r lôn bresennol lle mae'r ATC wedi'i leoli ar hyn o bryd. Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau na fydd y rhandiroedd yn cael eu niweidio.

Y Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC)
Bydd y tir y mae adeilad yr ATC arno yn rhan o safle datblygu'r ysgol. Ystyrir ymgorffori'r ATC i ddatblygiad yr ysgol newydd.

**Y Maes Chwarae**
Bydd yn rhaid ail-leoli'r maes chwarae drws nesaf i'r ysgol iau ond bydd yn dal i fod o fewn 50m i'r ysgol. Rydym yn cydymffurfio â gofynion Diogelu drwy Ddylunio, er enghraifft bydd ffensys a mesurau diogelwch / gatiau yn cael eu gosod. Bydd ffens diogelwch o amgylch yr ysgol a'r rhandiroedd.

# ATODIAD 14

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy ehangu. Byddai'r trefniant dau safle presennol yn dod i ben a'r adran fabanod yn symud i ysgol gynradd newydd ar safle presennol adran iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET, mewn grym o fis Medi 2025 ymlaen.**

**Cyflwyniad**
Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Côd ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Crynodeb / Casgliad**
Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r pum egwyddor allweddol sy'n rhan o'r fframwaith ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r egwyddorion allweddol hyn yn llywio'r gwaith o drefnu a moderneiddio ysgolion yr awdurdod lleol. Mae'r cynigion yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Mae'r cynnig yn debygol o wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen.

**Disgrifiad a manteision**
Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig drwy gydol y ddogfen ymgynghori. Mae'r cynnig yn rhoi disgrifiad manwl a chlir o'r cynlluniau ar gyfer Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, gan gynnwys yr amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol gweithredu'r cynnig. Mae'r cyngor wedi cyflwyno'r cynnig er mwyn darparu lleoedd cynradd ychwanegol i wasanaethu dalgylch traddodiadol yr ysgol, i fynd i'r afael â chyflwr yr adeiladau a materion gorlenwi, ac i ddod â'r adrannau babanod ac iau ar un safle.

Mae manteision disgwyliedig ac anfanteision posibl y cynnig yn cael eu gwneud yn glir drwy gydol y ddogfen ymgynghori. Rhoddir ystyriaeth haeddiannol i fanteision y cynnig o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Y cynnig yw gwneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, sydd ar ddau safle ar hyn o bryd. Byddai'r trefniant dau safle presennol yn dod i ben a'r adran fabanod yn symud i adeilad ysgol gynradd newydd ar safle presennol adran iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, sydd 0.4 milltir o'r safle babanod presennol. Mae adeilad presennol y babanod mewn cyflwr gwael

ac mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth resymol i effaith y newidiadau arfaethedig ar yr ysgol yn y cyfamser.

Mae adeilad y babanod yn un categori D (‘cyflwr gwael, angen gwaith ar frys’ a nodwyd ym mis Mawrth 2019) gyda gwerth dros £1000 000 o waith cynnal a chadw sylweddol angen ei wneud. Oherwydd cyflwr gwael yr adeilad, penderfynodd yr awdurdod lleol gau y rhan fwyaf o'r mannau addysgu a gosod ystafelloedd dosbarth symudol dros dro ar y safle.

Mae'r cynnig yn nodi dewisiadau amgen rhesymol a rhesymau pam y mae'r rhain wedi'u diystyru. Mae hefyd yn cydnabod yr effaith fechan ar drefniadau teithio dysgwyr gan fod y safleoedd babanod ac iau 0.4 milltir oddi wrth ei gilydd. Mae'r cynnig yn dangos bod y newidiadau arfaethedig yn annhebygol o gynyddu lleoedd dros ben yn yr ysgol. Mae niferoedd rhagamcanol yn dangos bod cynlluniau'r cynnig ar gyfer niferoedd disgyblion yn cyd-fynd â'r rhagamcanion presennol. Mae lle i 333 o ddysgwyr amser llawn ar hyn o bryd a 67 lle meithrin cyfwerth ag amser llawn (ers sefydlu’r ysgol yn 2015). Y cynnig yw cynyddu’r lleoedd i 420 o ddysgwyr (mynediad 2 ddosbarth) a 75 lle meithrin cyfwerth ag amser llawn. Mae data mis Ionawr 2021 yn dangos bod mwy o ddysgwyr yn yr ysgol na’r hyn y cytunwyd arno. Mae rhagamcanion amlinellol hyd at 2025 yn dangos bod yr ysgol yn debygol o fod yn fwy na llawn.

Mae'r cynnig yn cynnwys manylion goblygiadau ariannol y newidiadau arfaethedig yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig a'r arbedion posibl.

**Agweddau addysgol y cynnig**
Mae'r cynnig yn dangos yn glir bod yr awdurdod lleol wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol. Mae'n amlinellu manteision dod â'r adran fabanod a'r adran iau at ei gilydd ar un safle. Byddai dysgwyr a staff ar eu hennill o gael darpariaeth i ddysgwyr mewn adeilad newydd sbon, wedi'i gynllunio i hwyluso addysgu a dysgu. Nodir bod hyn o arwyddocâd sylweddol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen, a fyddai’n cael darpariaeth fwy addas. Mae'r cynnig yn cyfeirio hefyd at y posibilrwydd o ymgorffori darpariaeth gymunedol yn yr adeilad newydd.

Mae’r cynnig yn cyfeirio at effaith datblygu’r ysgol ar ddeilliannau dysgwyr ac yn dod i’r casgliad y bydd y newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau. Mae’n nodi sylwadau a wnaed gan arolygwyr Estyn yn ystod yr arolwg mwyaf diweddaraf yn 2017, gan gyfeirio at yr effaith negyddol o fod ar ddau safle. Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn gadarnhaol, gyda phob maes arolygu yn cael ei ystyried yn 'dda'.

Mae ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys yr addysgu yn yr ysgol, yn cael eu hystyried yn y cynnig. Nodir bod yr ysgol eisoes yn gwneud y defnydd gorau o’r amgylcheddau dysgu ond y byddai’n elwa’n sylweddol o gael amgylcheddau dysgu wedi’u cynllunio i hwyluso egwyddorion addysgeg y cyfnod sylfaen ac i gefnogi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Yn hanesyddol mae'r ysgol wedi cael arweinyddiaeth gref ac oherwydd hynny daw'r cynnig i'r casgliad nad yw'r newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol, a'r modd y caiff yr ysgol ei rhedeg. Fodd bynnag, mae'n cydnabod manteision lleoli'r tîm cyfan ar un safle.

Mae'r cynnig yn ystyried adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol a allai gael eu heffeithio. Mae hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar aelodau'r gymuned leol y gallai gweithredu'r cynnig effeithio'n annheg arnynt. Mae'n gwahodd barn y rhai sydd â diddordeb yn y cynnig. Mae'r cynnig yn cynnwys asesiad effaith cymunedol ac yn amlygu grwpiau cymunedol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig. Mae hefyd yn cynnwys y camau y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig i liniaru'r effaith ar unigolion a sefydliadau.

Mae'r cynnig yn amlinellu y byddai gwaith adeiladu'r ysgol newydd yn cael ei wneud fesul cam er mwyn sicrhau y gall yr addysgu a'r dysgu barhau ar y safle iau yn ystod y cyfnod adeiladu.

**Ymatebion/esboniadau'r Awdurdod Lleol i'r crynodeb o'r materion a godwyd:**
Byddai'r adeilad ysgol newydd arfaethedig wedi'i ddylunio'n addas i fodloni gofynion darparu addysg a dysgu yn yr 21ain Ganrif, gan fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyflwr yr adeilad a gorlenwi. Bydd yr ysgol yn darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion cynradd er mwyn wasanaethu dalgylch traddodiadol yr ysgol ac yn dod â'r adrannau babanod ac iau at ei gilydd ar un safle. Dyma gyfle cyffrous i ysgol gael adeilad sydd wedi'i ddylunio i ddarparu amgylchedd dysgu a chyfleoedd cwricwlaidd priodol, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Bydd yr adeilad yn cynnig cyfleoedd i rannu cyfleusterau gyda chlybiau a'r gymuned leol hefyd.

Mae'n annhebygol y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol, a'r modd y caiff yr ysgol ei rhedeg. Fodd bynnag, ceir manteision lu o leoli'r tîm cyfan ar un safle.

## ATODIAD 15

## Asesiad Effaith ar y Gymuned - diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad

**Enw'r cynnig:**
Cynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy ehangu. Byddai'r trefniant dau safle presennol yn dod i ben a'r adran fabanod yn symud i ysgol gynradd fwy ar safle presennol adran iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET, mewn grym o fis Medi 2025 ymlaen.

**Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?**
Cabinet

**Pwy sydd wedi bod yn ymwneud â datblygu'r cynnig?**
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr Rhaglen Ysgolion – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwyr Grŵp – Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Bwrdd Rhaglen Strategol Moderneiddio Ysgolion
Rheolwr Prosiect – Moderneiddio Ysgolion
Swyddogion technegol yr awdurdod lleol

**Nodau ac amcanion:**
Cynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy ehangu. Byddai'r trefniant dau safle presennol yn dod i ben a'r adran fabanod yn symud i ysgol gynradd fwy ar safle presennol adran iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET, mewn grym o fis Medi 2025 ymlaen.

**Camau gweithredu allweddol**:

- Y weithdrefn statudol i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig

**Deilliannau disgwyliedig:**

Bydd Ysgol Fabanod Mynydd Cynffig yn symud i safle Ysgol Iau Mynydd Cynffig mewn adeilad ysgol gynradd mwy. Mae’r cynnig yn golygu y bydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu i ddarparu ysgol gynradd mynediad dau ddosbarth gyda lle i 420 o ddysgwyr

ynghyd â meithrinfa i 75 o ddysgwyr cyfwerth ag amser llawn, mewn grym o fis Medi 2025 ymlaen.

**Pwy fydd yn cael ei effeithio:** Staff, llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni a'r gymuned ehangach.

**Tua faint o bobl fydd yn cael eu heffeithio:** mwy na 1000 o bobl o bosibl.

**Dyddiad disgwyliedig y penderfyniad**: Mehefin 2022.

**Cwmpas/ffocws yr asesiad**

Rhoddwyd ystyriaeth i:

- sut mae'r gymuned yn defnyddio'r ysgol ar hyn o bryd
- hygyrchedd i ddysgwyr, staff, rhieni a'r gymuned
- effaith symud ysgol gynradd
- effaith ar adeilad yr ysgol
- effaith ar y gymuned estynedig

**Data a/neu ymchwil perthnasol:**

- Sut mae adeiladau'r ysgol yn cael eu defnyddio ar ôl oriau ysgol
- 'Fframwaith Strategaeth, Egwyddorion, Polisi a Chynllunio' sy'n ganllaw er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol yn y Fwrdeistref Sirol a'r 'Ddogfen Egwyddorion' 2015 ddilynol
- Rhagamcanion dysgwyr, maint a chyflwr yr adeilad

**Canfyddiadau:**
**Defnydd Cymunedol:**

- Nid oes yr un o'r adeiladau presennol yn cael eu defnyddio gan sefydliadau lleol neu ar gyfer dysgu cymunedol ac oedolion y tu allan i oriau'r ysgol.
- Mae safle'r babanod yn cynnal clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol yn y neuadd.
- Mae'r safle iau yn cynnal clwb brecwast a chlybiau ar ôl ysgol dan arweiniad yr athrawon.

**Polisi Cynradd:**

- Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â 'Dogfen Egwyddorion' mis Mawrth 2015.

Rhagamcanion dysgwyr, maint a chyflwr yr adeilad:

- Mae'r rhagamcanion o niferoedd dysgwyr sy'n effeithio ar ysgolion cynradd y clwstwr yn dangos bod niferoedd y dysgwyr yn cynyddu yn rhai o ardaloedd y clwstwr.
- Mae cyflwr yr adeiladau presennol wedi'u hamlinellu isod:

| **Ysgol** | **Ansawdd yr Adeilad** |
|---|---|
| Ysgol Babanod Mynydd Cynffig | Gradd cyflwr cyffredinol D (Gwael iawn; wedi dod i ddiwedd ei hoes a/neu perygl ei bod ar fin cau) O'r herwydd, mae ystafelloedd dosbarth symudol wedi'u gosod yno. |
| Ysgol Iau Mynydd Cynffig | Gradd cyflwr cyffredinol C (gwael; gyda diffygion mawr ac/neu nid yw'n gweithredu yn ôl y bwriad) |

Effaith ar y gymuned estynedig

Mae'n bur debyg y bydd effaith gadarnhaol o ran cyfleusterau cymunedol modern, hygyrch, pwrpasol, wedi'u lleoli yn yr ysgol newydd arfaethedig.

**Effaith ar ysgolion eraill**
Tybir na fydd symud yr ysgol fabanod i safle'r ysgol iau yn cael effaith uniongyrchol sylweddol ar ysgolion eraill yr ardal. Mae'r cyngor wedi ystyried i ba raddau y mae'r cynnig hwn yn cefnogi targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ac wedi dod i'r canlyniad bod y cynnig yn debygol o fod yn niwtral o ran targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**Sut bydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig?**

Tybir na fydd hi'n debygol y bydd pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig. A dweud y gwir, mae'n bosibl y byddai'r effaith yn gadarnhaol oherwydd byddai'r ysgol newydd yn cael ei dylunio i gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a fyddai'n cefnogi'r holl ddysgwyr, staff, ymwelwyr ac ati.

**Ymgynghoriad**

**A fu ymgynghoriad penodol ar y penderfyniad hwn (os na, nodwch pam a/neu pryd y gallai ddigwydd):**

Dechreuodd yr ymgynghoriad 23 Tachwedd 2021 hyd at 12 Ionawr 2022.

**Beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad?**
Mae effaith y cynnig hwn wedi'i ystyried a'i ddiweddaru.

**Yn gyffredinol, o ran pobl â nodweddion gwarchodedig, pa wahaniaeth barn a ddatgelodd y dadansoddiad o'r ymgynghoriad?**
Daeth yr asesiad i'r casgliad na fydd y cynnig yn debygol o gael effaith anghyfartal ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

**Pa gasgliadau y daethpwyd iddynt o'r dadansoddiad ynghylch sut y bydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig?**

Tybir na fydd hi'n debygol y bydd pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig. A dweud y gwir, mae'n bosibl y byddai'r effaith yn gadarnhaol oherwydd byddai'r ysgol newydd yn cael ei dylunio i gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a fyddai'n cefnogi'r holl ddysgwyr, staff, ymwelwyr ac ati.

## Asesiad o'r effaith ar staff

**Rhowch fanylion yr effaith ar staff, gan gynnwys proffil staffio os/fel y bo'n briodol:**

Gall y cynnig gael effaith ar staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Mater i'r corff llywodraethu yw penderfynu hyn a bydd yn seiliedig ar angen addysgol a'r gyllideb sydd ar gael.

## Asesiad o'r effaith ar y gymuned ehangach

**Rhowch fanylion unrhyw effeithiau ar y gymuned gyfan:**

Mae safleoedd yr ysgol fabanod a'r ysgol iau o fewn 0.4 milltir i'w gilydd. Felly, ni ragwelir y bydd unrhyw bosibilrwydd sylweddol o effaith negyddol ar y gymuned.

Fodd bynnag, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'n bosibl y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar gydlyniant y gymuned gan y byddai'r dysgwyr yn mynychu adeilad ysgol newydd sbon gyda chyfleusterau cymunedol pwrpasol yn rhan ohoni.

## Dadansoddiad o effaith yn ôl nodweddion gwarchodedig

**Rhowch grynodeb o ganlyniadau'r dadansoddiad:**
Tybir na fydd hi'n debygol y bydd pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan y cynnig.

## Asesiad o effaith y penderfyniad a pha mor berthnasol ydyw i bobl â gwahanol nodweddion

**Perthnasedd** = Uchel/Isel/Dim **Effaith** = Uchel/Isel/Niwtral

| **Nodwedd** | **Perthnasedd** | **Effaith:** |
|---|---|---|
| Oedran | Uchel | Isel |
| Anabledd | Dim | Niwtral |
| Ailbennu rhywedd | Dim | Niwtral |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | Niwtral |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim | Niwtral |
| Hil | Dim | Niwtral |

| Nodwedd | Perthnasedd | Effaith: |
|---|---|---|
| Crefydd neu gred | Dim | Niwtral |
| Rhyw | Dim | Niwtral |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | Niwtral |
| Grwpiau eraill sy'n cael eu heithrio yn y gymdeithas (gan gynnwys anghydraddoldebau ar sail iechyd) | Dim | Niwtral |

**Os nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, amlinellwch y camau lliniaru a gymerwyd:**

Nid nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.

**Rhowch wybod am y goblygiadau cydraddoldeb cyffredinol y dylid eu hystyried wrth wneud y penderfyniad terfynol, gan ystyried perthnasedd ac effaith:**

Daeth yr asesiad i'r casgliad na fydd y cynnig yn debygol o gael effaith anghyfartal ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

**Llofnod:**

Rheolwr Prosiect, Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**Dyddiad:**

24 Ionawr 2022

## Atodiad 16 - Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg – diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad

**Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig**

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yw strategaeth yr awdurdod lleol sy'n nodi'r modd y mae'n anelu at hwyluso'r cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu'r Gymraeg yn strategol a chyda chynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad sylweddol, ei nod yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni gweledigaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Gellir gweld CSCA cyfredol yr awdurdod lleol drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.bridgend.gov.uk/media/4856/cynllun-strategol-cymraeg-mewn-addysg-pen-y-bont-ar-ogwr-2017-hyd-at-2020.docx

Mae ymgynghoriad statudol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg deng mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2032 wedi dod i ben yn ddiweddar ac mae’r cynllun wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i’w ystyried.

Cynnig yw hwn i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy ehangu. Byddai'r trefniant dau safle presennol yn dod i ben a'r adran fabanod yn symud i ysgol gynradd fwy ar safle presennol adran iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET, i greu ysgol gyda lle i 420 ynghyd ag ysgol feithrin gyda 75 lle cyfwerth ag amser llawn, mewn grym o fis Medi 2025 ymlaen.

Gan y byddai'r ysgol arfaethedig yn parhau i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Saesneg, byddai'r Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu, fel ar hyn o bryd, drwy'r cwricwlwm. Mae Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar hyn o bryd yn defnyddio’r Gymraeg lle bynnag y bo modd gan hyrwyddo defnydd anffurfiol o’r Gymraeg ymhlith dysgwyr a defnyddio rhaglenni fel ‘Seren yr Wythnos’, ‘Helpwr Heddiw’ a ‘Criw Cymraeg’. Mae hyn yn helpu i greu agwedd gadarnhaol ac yn cynyddu gallu dysgwyr i ddefnyddio’r iaith. Bydd y dull hwn yn parhau yn yr adeilad ysgol newydd arfaethedig. Mae ymrwymiad i gyflawni’r Siarter Iaith ‘Cymraeg Campus’, fframwaith i hybu a chynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae defnyddio’r Gymraeg ar draws cyfnodau allweddol yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddod yn gwbl ddwyieithog ac mae’n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru – 2022.Ystyrir felly ei bod yn annhebygol y byddai effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir gan ddysgwyr yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Os caiff ei weithredu, gallai’r cynnig ganiatáu defnydd cymunedol o gyfleusterau’r ysgol y gellid eu defnyddio i gynnal dosbarthiadau a chyfarfodydd oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir cyrsiau Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Morgannwg sy’n darparu cyrsiau ar-lein ac yn lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a

Rhondda Cynon Taf ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Maent hefyd yn cynnig ystod o gyrsiau blasu ar-lein y gall unrhyw un gael mynediad iddynt ac yn cynnig sesiynau Sadwrn Siarad o bryd i'w gilydd. Mae gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnig gan Fenter Bro Ogwr yn bennaf er bod Partneriaeth Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn anelu at gynnig gweithgareddau dysgu lle gallant wneud hynny a lle mae gweithgareddau'n profi'n hyfyw o ran niferoedd.

Mae'n bwysig sylweddoli bod y cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn deillio o'r problemau gorlenwi sy'n bodoli ar hyn o bryd. O'r herwydd, ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol ar addysg cyfrwng Cymraeg yr ardal pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn aros yn gyson, gyda 383 o ddysgwyr 4-11 oed ym mis Ionawr 2020, a 388 o ddysgwyr 4-11 oed ym mis Ionawr 2021 ar y gofrestr. Cyn gosod llety dros dro ar safle'r babanod, roedd capasiti'r ysgol gyda'i gilydd yn 345, mae hyn yn dangos lefel y gorlenwi a brofwyd gan ddysgwyr (diffyg lleoedd o 11% ym mis Ionawr 2020).

Mae cynyddu capasiti i 420, sy'n arwain at rif derbyn cyhoeddedig o 60, yn gyson â maint grwpiau blwyddyn penodol sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd (hy blynyddoedd 3, 4 a 5 – ym mis Ionawr 2021). Felly, ni fydd y lleoedd ychwanegol a gynllunnir ar gyfer yr ysgol yn cael effaith andwyol ar Ysgol Y Ferch O'r Sgêr. Byddai Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig o faint priodol i fynd i'r afael ag anghenion llety ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn y system ac yn mynychu Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig. Mae'r rhagamcanion yn dangos na ragwelir y bydd y boblogaeth disgyblion yn cynyddu o ganlyniad i'r ysgol newydd arfaethedig.

Er nad yw'n rhan o'r cynnig hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio i wella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal drwy adeiladu ysgol newydd fwy a phwrpasol yn lle darpariaeth Ysgol Y Ferch O'r Sgêr ar y safle presennol yn Greenfield Terrace, Gogledd Corneli.

Mae gan Ysgol Y Ferch O'r Sgêr nifer sylweddol o leoedd gweigion ar hyn o bryd (hy ym mis Ionawr 2021 roedd gan yr ysgol gapasiti o 197 o leoedd a 139 o ddisgyblion 4-11 oed ar y gofrestr) ac felly, nid yw rhieni'n cael eu hatal rhag dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant os dymunant, gan fod gan yr ysgol ddigon o leoedd ar gael (hy 58 o leoedd disgyblion ar gael, sy'n cyfateb i 29% o leoedd dros ben).

Er bod cynnig Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, am y rhesymau a nodir uchod, wedi'i asesu gan yr awdurdod lleol fel un sy'n debygol o fod yn niwtral o ran i ba raddau y byddai'n cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd, dylid nodi mai'r ysgol Gymraeg yn yr ardal hon yw Ysgol y Ferch O'r Sgêr. Ym mis Medi 2024, bydd Ysgol Y Ferch O'r Sgêr yn cael ei hehangu i ysgol 2 ddosbarth y flwyddyn (hy 420 o leoedd 4-11 oed), er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach a symud agenda Cymraeg 2050 yn ei blaen.

**Proffil ieithyddol cyfredol**

Nododd Cyfrifiad 2011, o'r 134,545 o drigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fod 9.7% (13,103) yn gallu siarad Cymraeg, tra nad oedd y 90.3% arall (121,442) yn gallu siarad Cymraeg. Gellir cymharu hyn â ffigurau Cymru gyfan a ddangosodd o'r 2,955,841 o drigolion sy'n byw yng Nghymru, roedd 19.0% (562,016) yn gallu siarad Cymraeg, tra nad oedd yr 81.0% arall (2,393,825) yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw yn adran etholiadol y Pîl o gymharu â ffigur Cymru gyfan, ac fe'i codwyd o Gyfrifiad 2011:
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

| | Pîl | Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 6.6% | 14.6% |
| Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 0.8% | 1.5% |
| Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 1.4% | 2.7% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 4.0% | 5.3% |
| Cyfuniad arall o sgiliau | 4.0% | 2.5% |
| Dim sgiliau | 83.2% | 73.3% |
| Cyfanswm | 100% | 100% |

Mae'r data'n dangos bod sgiliau Cymraeg trigolion rhanbarth etholiadol y Pîl yn is na lefel sgiliau Cymraeg Cymru Gyfan.

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, dywedodd 17.8% o ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chanran Cymru gyfan o 29.2% o ymatebwyr. Gellir dadansoddi hyn ymhellach i'r data a gynhwysir yn y tabl sy'n dilyn.

| Sgiliau Cymraeg Preswylwyr (%) | | |
|---|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru |
| Yn gallu darllen Cymraeg | 16.9% | 25.9% |
| Yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 15.9% | 23.8% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar | 21.2% | 33.7% |

| Sgiliau Cymraeg Preswylwyr (%) | | |
|---|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru |
| Siarad Cymraeg bob dydd | 6.3% | 15.2% |
| Siarad Cymraeg yn wythnosol | 3.1% | 5.2% |
| Ei defnyddio'n llai aml neu byth | 6.9% | 7.3% |

Dengys y data fod bwlch yn sgiliau iaith Gymraeg trigolion Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chymru gyfan. Mae cynigion fel hyn yn gwella'r amgylchedd dysgu a'r cyfleoedd sydd ar gael i'n dysgwyr yn sylweddol. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau hyn i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg drwy gynnig y cyfle i rieni/gofalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy cyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo o addysg Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn annog mwy i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Er nad oes gan y Cyngor unrhyw ddosbarthiadau trochi Cymraeg cymorth trochi Cymraeg i ddysgwyr sy'n hwyrddyfodiaid yn cael eu hariannu i gefnogi caffaeliad cyflym o sgiliau Cymraeg dysgwyr yn ôl yr angen. Felly, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael cyllid yn uniongyrchol er mwyn sicrhau bod unrhyw hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael y cymorth a'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ffynnu yn eu hysgol.

Ystyrir bod hyn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, o ystyried bod llawer o awdurdodau lleol yn gweithredu modelau amrywiol o ddosbarthiadau trochi Cymraeg i gefnogi dysgwyr sy'n hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, gallai gwaith gyda Llywodraeth Cymru, Consortiwm Canolbarth y De, JES chonsortia addysg rhanbarthol eraill fod yn fuddiol er mwyn deall pa gyfleoedd i gydweithio sydd ar gael er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Lle bo galw, bydd y Cyngor yn ystyried creu

dosbarth trochi Cymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid ochr yn ochr â datblygu ei Raglen Band B ar gyfer Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif.

**Data neu ymchwil perthnasol arall**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr 3-11 oed ac un ddarpariaeth uwchradd ar gyfer dysgwyr 11 i 18 oed.

Caiff y galw a'r rhagamcanion eu monitro'n rheolaidd ar draws pob ysgol fel rhan o'r broses cynllunio trefniadaeth ysgolion. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob ysgol adeiladau digonol ar gyfer cwrdd â'r galw. Mae'r broses hefyd yn nodi cyfleoedd i hyrwyddo a thyfu'r Gymraeg. Defnyddiwyd y data hwn i lywio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Mae'r ffigurau'r rhagamcanion ar gyfer pob ysgol yn nalgylch Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, sy'n cynnwys Ysgol Y Ferch O'r Sgêr, i'w gweld yn y ddogfen ymgynghori.

Rheolwr y Prosiect
24 Ionawr 2022

## Atodiad 17

# Ffurflen Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

Mae’r ddogfen hon yn adnodd amlbwrpas i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: deddfwriaeth Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb ac i ddangos ein bod wedi rhoi'r sylw dyledus i’r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol o dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau bod Safonau’r Gymraeg yn cael eu hystyried: https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/safonau-y-gymraeg

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad a fydd o gymorth wrth gwblhau'r AEG hwn.

- **Dylid cynnal yr asesiad hwn yn ystod cyfnod ffurfio eich polisi neu gynnig. Bydd unrhyw effeithiau negyddol a nodir yn eich annog i ddyfeisio strategaethau ymgysylltu er mwyn casglu rhagor o dystiolaeth.**
- **Os ydych yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn fel rhan o'ch polisi neu gynnig, dylid llenwi'r ffurflen hon cyn i'r ymgynghoriad ddechrau a'i defnyddio fel arf i lywio cwestiynau eich ymgynghoriad a gweithgareddau ymgysylltu.**
- **Mae angen ymateb i bob adran a phob cwestiwn ac ni ddylid gadael unrhyw un yn wag, hyd yn oed os mai 'ddim yn berthnasol' neu 'testun ymgynghoriad pellach' yw'r ymateb.**

| | |
|---|---|
| Enw’r prosiect, polisi, swyddogaeth, gwasanaeth neu gynnig sy’n cael ei asesu: | Newidiadau i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig |
| Disgrifiad byr a nod y polisi neu'r cynnig: | Cynnig i ddarparu ysgol gynradd fwy yn lle'r ysgol bresennol a dod â'r adrannau babanod ac iau i un safle |

| | |
|---|---|
| Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r polisi neu'r cynnig? | Cyfarwyddwr - Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Dyddiad cwblhau sgrinio AEG: | 14/06/21 |
| A yw'r polisi neu'r cynnig hwn yn ymwneud ag unrhyw bolisïau eraill? (nodwch) | • Rhaglen Moderneiddio Ysgolion<br>• Rhaglen Dechrau'n Deg<br>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru<br>• Maint Dosbarthiadau Babanod<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr – Cynllun Llesiant<br>• Cynllun Corfforaethol 2018-2022<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2018-2021<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl - cynllun gweithredu 2017-2021<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) |
| Ar bwy y mae'r polisi hwn yn effeithio (e.e. Staff, preswylwyr, pobl anabl, menywod yn unig?) | Dysgwyr, rhieni a staff |
| A yw'r polisi'n gysylltiedig â pholisïau neu feysydd gwaith eraill (mewnol neu allanol), yn dylanwadu arnynt neu'n | • Rhaglen Dechrau'n Deg |

| | |
|---|---|
| effeithio arnynt? *Noder: Ystyriwch hyn yn nhermau gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau rhanbarthol (partneriaeth), polisïau cenedlaethol, diwygiadau lles.* | • Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru<br>• Maint Dosbarthiadau Babanod<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr – Cynllun Llesiant<br>• Cynllun Corfforaethol 2018-2022<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2018-2021<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl - cynllun gweithredu 2017-2021<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg<br>• Cymraeg 2050 Strategaeth y Gymraeg |
| Os mai adolygiad neu ddiwygiad o bolisi presennol yw hwn, a oes AEG wedi ei gynnal? Cofiwch gynnwys dyddiad cwblhau: | Ddim yn berthnasol |
| Os oes AEG, pa ddata newydd a gasglwyd ers ei gwblhau? | Ddim yn berthnasol |

**Asesiad o Effaith**

Nodweddion gwarchodedig
A fydd unrhyw agwedd ar y polisi neu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd?

***Noder os gwelwch yn dda: Os byddwch yn nodi effaith negyddol ar unrhyw unigolion â nodweddion gwarchodedig, bydd angen i chi gasglu rhagor o dystiolaeth i gwblhau AEG llawn.**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol** | | | **Eglurhad o'r effaith** |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith/Effeithiau cadarnhaol** | **Effaith/Effeithiau negyddol** | **Dim effaith** | |
| Rhywedd | **X** | | | Bydd dyluniad yr adeiladau'n darparu ar gyfer defnyddwyr niwtral o ran rhywedd |
| Anabledd | | | **X** | |
| Hil | | | **X** | |
| Crefydd a chred | | | **X** | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | | | **X** | |
| Oedran | **X** | | | Sicrhau gwell amgylchedd ysgol i ddysgwyr |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | | | **X** | |
| Trawsryweddol | | | **X** | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | **X** | |

**Effaith gymdeithasol-economaidd**
A fydd unrhyw agwedd ar y polisi neu gynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl neu gymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?
***Noder os gwelwch yn dda: Os byddwch yn nodi effaith economaidd-gymdeithasol negyddol, bydd angen i chi gasglu rhagor o dystiolaeth i gwblhau AEG llawn.**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol** | | | **Eglurhad o'r effaith** |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith/Effeithiau cadarnhaol** | **Effaith/Effeithiau negyddol** | **Dim effaith** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Anfantais economaidd-gymdeithasol | X | | | Gwell cyfleusterau i ddysgwyr sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol fydd yn mynychu'r ysgol. Potensial ar gyfer darpariaeth gofleidiol, gan alluogi rhieni i chwilio am waith neu hyfforddiant efallai |

**Y Gymraeg**
A yw'n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi neu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu wrth drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

***Noder os gwelwch yn dda: If you identify a negative impact for persons to use the Welsh language and in treating the Welsh language less favourably than the English language you will need to undertake further evidence gathering to complete a full EIA.**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith/Effeithiau cadarnhaol** | **Effaith/Effeithiau negyddol** | **Dim effaith** | **Eglurhad o'r effaith** |
| A fydd y polisi neu'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg | | | X | Bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu yn yr ysgol. |
| A fydd y polisi neu'r cynnig yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | | | X | |

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol a dyletswyddau penodol, sy'n helpu awdurdodau i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
Nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw integreiddio ystyriaethau ynghylch hyrwyddo cydraddoldeb yng ngwaith awdurdodau cyhoeddus o ddydd i ddydd. I grynhoi: yn eu gwaith, mae'n rhaid i'r sawl sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt

**Sut mae'r polisi neu'r cynnig hwn yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol?**

| |
|---|
| Byddai'r cynllun yn cael ei ddatblygu i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig. |

**Caffael a phartneriaethau**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion nodweddion gwarchodedig wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys pan wneir hyn mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy gaffael gwasanaethau. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad polisi, neu newid mewn darparu gwasanaeth, ar y Gymraeg, sy'n cynnwys unrhyw waith a wneir mewn partneriaeth neu gan drydydd person. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol hefyd wrth gynllunio penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr i ystyried sut y gall trefniadau o'r fath leihau anghydraddoldebau canlyniadau a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

**A fydd y polisi neu'r cynnig hwn yn cael ei gyflawni'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan gontractwyr neu bartneriaid?**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol** |
|---|---|
| Bydd | X (yn rhannol) |
| Nac fydd | |

Os felly, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, Deddf yr Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn perthynas â chaffael a/neu bartneriaethau?

| | **Camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth:** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol | Mae dogfennau caffael a chontract cadarn yn rhoi sylw dyledus i hyn |
| Deddf yr Iaith Gymraeg | Mae dogfennau caffael a chontract cadarn yn rhoi sylw dyledus i hyn |
| Dyletswydd economaidd-gymdeithasol | Mae dogfennau caffael a chontract cadarn yn rhoi sylw dyledus i hyn |

**Beth ydych chi wedi penderfynu ei wneud?**
Cofnod o benderfyniad yn seiliedig ar asesiad o effaith ar nodweddion gwarchodedig, yr effaith economaidd-gymdeithasol a'r effaith ar y Gymraeg. Rhowch X yn y blwch perthnasol.

**Os byddwch yn nodi effaith negyddol ar un, rhai neu bob un o'r nodweddion gwarchodedig, dyletswydd economaidd-gymdeithasol neu'r Iaith Gymraeg, mae'n RHAID i chi gwblhau AEG llawn.**

| **Effaith a nodwyd** | **Camau nesaf:** | **Rhowch X yn y blwch perthnasol:** |
|---|---|---|
| Dim effaith negyddol wedi'i nodi | 'Sgrinio allan': parhau â'r polisi neu gynnig | **X** |
| Nodwyd un neu ragor o effeithiau negyddol | Cwblhau AEG llawn i gasglu mwy o dystiolaeth ar effeithiau negyddol posibl | |
| **Eglurwch y rhesymau dros y penderfyniad hwn. Os ydych wedi 'sgrinio allan', mae'n rhaid i chi gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad.** | | |
| Nodwyd bod y cynnig yn annhebygol o gael effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Mae effeithiau cadarnhaol wedi'u nodi, gan gynnwys rhywedd ac oedran fel y gwelir yn y tabl uchod. Am na nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, ni fydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb llawn. | | |

**Cymeradwyaeth:**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cwblhau sgrinio AEG: | 14/06/21 |
| **Cymeradwywyd gan (Pennaeth y Gwasanaeth):** | Nicola Echanis<br> |
| **Dyddiad cymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaeth:** | 10 Tachwedd 2021 |

| | |
|---|---|
| **Os yw'r sgrinio hwn wedi nodi bod angen AEG llawn, pwy fydd yn ei gynnal?** | Ddim yn berthnasol |
| **Os yw'r sgrinio hwn wedi nodi bod angen AEG llawn, pryd fydd yn cael ei gwblhau (Dyddiad):** | Ddim yn berthnasol |

## Atodiad 18

**ASESIAD DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad o'r Prosiect (nodau allweddol): Rhoi Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ym Mand B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** | |
| **Adran 1** | **Cwblhewch y tabl isod i asesu pa mor dda yr ydych wedi cymhwyso'r 5 ffordd o weithio.** |
| **Hir dymor**<br><br>(Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd) | **1. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cydbwyso'r anghenion tymor byr a thymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol?**<br><br>Mae'r cynllun hwn wedi mabwysiadu dull strategol cydweithredol o weithio gyda swyddogion prif adrannau'r Cyngor, gan gynnwys addysg, cynllunio a landlordiaid corfforaethol. Bu grŵp strategol yn ystyried data cyfredol a rhagamcanol gan gynnwys maint ysgolion, tai, cyflwr adeiladau ac ati. Cynhaliwyd proses gwerthuso dewisiadau er mwyn pwyso a mesur y dewisiadau addysgol gorau ar gyfer yr ysgol ac mae astudiaeth dichonoldeb wrthi'n cael ei chynnal ar y safle a ffefrir. Pe bai'r cynllun ysgol newydd yn mynd yn ei flaen, bydd yn cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor drwy ddarparu digon o leoedd i ddisgyblion ac yn caniatáu i'r addysgu a dysgu ddigwydd ar un safle, gan fod o gymorth i rannu gwybodaeth arbenigol ac adnoddau ymhlith y staff. Bydd hefyd yn cefnogi gwaith rheoli a gwaith yr ysgol o ddydd i ddydd a bydd hefyd yn cynorthwyo rhieni gyda threfniadau danfon a chasglu plant, gan y bydd pob disgybl yn mynychu'r un safle. |
| **Atal**<br><br>(Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion) | **2. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn rhoi adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu?**<br><br>Adolygir nifer lleoedd mewn ysgolion yn flynyddol er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol ar gael a bod adeiladau addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r cynllun hwn wedi'i greu i sicrhau y gellir darparu lleoedd i ddisgyblion yn y dyfodol ac i sicrhau nad oes yr un disgybl yn methu cael lle. Bydd rhai cynlluniau yn sicrhau bod y Cyngor yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gymraeg 2050 hefyd. Mae dyletswydd statudol ar gynghorau i sicrhau bod digon o le i blant mewn ysgolion, a bydd y cynlluniau hyn yn amddiffyn y Cyngor petai unrhyw her gyfreithiol yn codi'i phen yn hynny o beth. |
| **Integreiddio** | **3. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cyflawni deilliannau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gyda'i gilydd?** |

| | |
|---|---|
| Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill) | Mae darparu digon o leoedd ym Mynydd Cynffig yn sicrhau y gellir cyflwyno'r cwricwlwm gan fodloni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y disgyblion a'r gymuned a wasanaethir. Bydd y cynllun hwn yn hyrwyddo cynhwysiant ac fe archwilir sut y bydd y gymuned yn defnyddio'r cyfleusterau a, lle y bo'n briodol, bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn y dyluniad. Bydd y gwaith adeiladu'n cael ei dendro'n gystadleuol, gan sicrhau'r gwerth gorau am arian. Gofynnir i brif gontractwyr hysbysebu gwaith ar GwerthwchiGymru a fydd o bosibl yn rhoi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig lleol dendro am y gwaith adeiladu, a fyddai'n cefnogi gweithgarwch economaidd yn yr ardal. Bydd buddion cymunedol yn cael eu hyrwyddo i'r eithaf. |
| **Cydweithio**<br><br>(Cydweithredu ag unrhyw unigolyn arall [neu wahanol adrannau o'r corff ei hun] a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant) | **4. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cynnwys cydweithio â phartneriaid (mewnol ac allanol) i gyflawni amcanion llesiant?** |
| | Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion, Estyn, Consortiwm Canolbarth y De (CCD), iechyd, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd yr adeilad yn diwallu anghenion tymor byr ac anghenion y defnyddwyr a'r gymuned a wasanaetha yn y dyfodol. Bydd swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr technegol wrth ddatblygu'r cynllun i sicrhau bod dyluniad yr adeilad yn gynaliadwy ac yn effeithlon o ran ynni. Bydd tîm y prosiect yn sicrhau bod y cynllun yn gweithio'n effeithiol, er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau a manteisio ar y gwariant gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. |
| **Cynhwysiant**<br><br>(Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir) | **5. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant? Sut mae'r rhanddeiliaid hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal?** |
| | Roedd y cynllun hwn yn ddarostyngedig i restr hir o ddewisiadau, a oedd yn cynnwys addysg a safle. Gwerthuswyd y rhain yn systematig gan gwtogi rhestr hir yn rhestr fer er mwyn cadarnhau pa ddewis sydd orau. Mae mwy o waith gan gynnwys ymgysylltu â'r holl randdeiliaid posibl, yn cynnwys y Cabinet, aelodau, llywodraethwyr, staff, disgyblion, partneriaid cymunedol, mewnol ac allanol a fydd yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector, yn ystod yr ymarfer ymgynghori. |

| Adran 2 | **Asesu pa mor dda y bydd eich prosiect / gweithgaredd yn arwain at lu o fanteision i'n cymunedau ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol (defnyddiwch Atodiad 1 i'ch helpu).** | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r nodau llesiant** | **Sut y bydd eich prosiect / gweithgaredd yn dod â manteision i'n cymunedau o dan y nodau llesiant cenedlaethol?** | **A oes unrhyw fodd o fanteisio i'r eithaf ar y buddiannau neu leihau unrhyw effeithiau negyddol ar ein cymunedau (a'r cyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol)?** |
| **Cymru Lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | Rhagwelir y bydd cwmnïau adeiladu yn cael eu penodi o'r fframwaith SEWSCAP ac felly bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r strategaethau cynaliadwyedd a ddatblygwyd ar gyfer adeiladu a chyrraedd targedau ailgylchu. Disgwylir iddynt hefyd ddarparu buddiannau cymunedol ym mhob prosiect. Gallai hyn gynnwys prentisiaethau, cyflogaeth a phrofiad gwaith ynghyd â chyfleoedd cyflogaeth fel y bo'n briodol. | Byddem yn manteisio i'r eithaf ar y buddiannau drwy sicrhau bod rhai agweddau allweddol yn cael eu nodi yn y contract adeiladu. |
| **Cymru Gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddatblygu gan roi sylw dyledus i strategaeth datgarboneiddio'r cyngor. | Ddim yn berthnasol |
| **Cymru Iachach**<br>Cymdeithas sy'n gwneud y gorau o lesiant corfforol a | Mae gwell cyfleusterau i ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach yn | Sicrhau bod yr adeilad wedi'i gynllunio i gyd- |

| | | |
|---|---|---|
| meddyliol ei phobl ac un sy'n deall y dewisiadau a'r ymddygiadau gorau i'w hiechyd yn y dyfodol. | gymorth i sicrhau corff a meddwl iach. | fynd â'r rheoliadau cyfredol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** Cymdeithas sy'n annog ei phobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Bydd dyluniad y cynllun hwn yn gwbl gynhwysol a bydd yn rhoi cyfleoedd i bob disgybl ddysgu, datblygu a chyrraedd ei lawn botensial. | Sicrhau bod dyluniad yr adeilad yn gwbl gynhwysol ac yn diwallu anghenion y disgyblion a'r cymunedau a wasanaethir. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** Cymunedau atyniadol, hyfyw, a diogel sydd â chysylltiadau da. | Byddwn yn meithrin cysylltiadau da â'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu, gan weithio'n agos gyda hi i hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu drwy gydol y prosiect ac wedi hynny. | Mae gwell cyfleusterau i ysgolion yn cynnig cyfleoedd i gynyddu'r defnydd a wna'r gymuned ohoni. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Bydd y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo gan y Cyngor ym Mand B ac felly'n cefnogi nod Cymraeg 2050. Bydd cynlluniau'n cael eu gwneud i hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan. | Byddai'r cwricwlwm cyflawn yn cael ei ddarparu'n well gan ysgolion, gan gynnwys y Gymraeg, ei diwylliant, ei threftadaeth a'i chwaraeon. Byddai defnyddio'r cyfleusterau yn y gymuned yn helpu i lywio'r dyluniad gan sicrhau bod y cyfleusterau'n hygyrch. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Efallai y bydd angen defnyddio contractwr o dan fframwaith SEWSCAP ar gyfer y gwaith adeiladu, ond mae'n debygol y gellir dod o hyd i ddeunyddiau a ddewisir y tu allan i Gymru, gan gefnogi'r economi fyd-eang. | Er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol, byddem yn ceisio sicrhau bod y rhan fwyaf o ddeunyddiau ar gael gan gyflenwyr o Gymru. |

| Adran 3 | **A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn effeithio ar bobl neu grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig? Eglurwch beth fydd yn cael ei wneud i amlhau unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau negyddol** | | |
|---|---|---|---|
| Nodweddion gwarchodedig | A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig? | A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig? | A oes unrhyw ffordd o amlhau unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau negyddol? |
| Oedran | Oes | Nac oes | Sicrhau gwell amgylchedd ysgol i ddisgyblion |
| Ailbennu rhywedd | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol |
| Hil | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol |
| Crefydd neu Gred | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol |
| Hil | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol |
| Rhyw | Oes | Nac oes | Bydd dyluniad yr adeiladau yn darparu ar gyfer defnyddwyr niwtral o ran rhywedd |
| Yr iaith Gymraeg | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol |

| Adran 4 | **Cyfarfod nodi penderfyniad ar gyfer y Prosiect/gweithgaredd e.e. Cabinet, Cyngor neu benderfyniad dirprwyedig a wnaed gan Aelodau Gweithredol a/neu Brif Swyddogion** |
|---|---|
| | |
| **Enw’r Swyddog Llunio:** | XX |
| **Teitl Swydd y Swyddog Llunio:** | Swyddog Adnoddau Strategol a Chynllunio, Prif Gynorthwy-ydd Pensaernïol a Phennaeth Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig |
| **Dyddiad cwblhau:** | 14 Mehefin 2021 |

## Atodiad 19

**Rhestr o randdeiliaid**

- Corff Llywodraethol, rhieni, staff, gofalwyr, gwarcheidwaid a dysgwyr Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig
- Ysgolion eraill o fewn y clwstwr/ardal: Ysgol Gynradd Afon y Felin, Ysgol Gynradd Cefn Cribwr, Ysgol Gynradd Corneli, Ysgol Y Ferch O'r Sger, Ysgol Gyfun Cynffig.
- Awdurdodau cyfagos
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol Catholig
- Gweinidogion Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion
- Estyn
- Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff unrhyw un o'r ysgolion sy'n rhan o'r cynigion
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw un o'r ysgolion sy'n rhan o'r cynigion
- Darparwyr meithrin annibynnol neu wirfoddol sy'n gwasanaethu'r ardal
- Tîm Gofal Plant CBSP/Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle bo hynny'n bresennol
- Aelodau Cabinet
- Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Aelodau Ward
- Rheolwr Grŵp CBSP, Cynhwysiant

Commented [AT1]: I think that they'r called Members of the Senedd (MS) now rather than Assembly Members (AMs)

- CAMHS, GIG Cymru, Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Lleol.
  Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol, GIG Cymru, Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Lleol.
- Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, GIG Cymru, Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Lleol.
- Pediatregwyr, GIG Cymru, Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Lleol.
- Therapi Galwedigaethol (ThG) GIG Cymru, Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Lleol.
- Gwasanaeth Ffisiotherapi: GIG Cymru, Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Lleol.
- Seicolegwyr Addysg. Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- SNAP Cymru
- Barnardo's Cymru
- Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol, Mynydd Cynffig
- Cymdeithas Rhandiroedd Pwllygath (CRhP)